Cronfa Ecwitis Cyfleoedd Byd-eang PPC WS

Cronfa Cyfleoedd y DU PP Cymru WS

Cronfa Ecwiti Marchnadoedd Datblygol PP Cymru WS

Cronfa Ecwiti Actif Cynaliadwy PP Cymru WS

Incwm Sefydlog

Cronfa Credyd Aml-ased PP Cymru WS

Cronfa Credyd Byd-eang PP Cymru WS

Cronfa Bondiau Llywodraeth Byd-eang PP Cymru WS

Cronfa Bondiau Enillion Absoliwt PP Cymru WS

Cronfa Credyd Sterling PP Cymru WS

Gwerthoedd Is-Gronfeydd PPC*

Cronfa	**Asedau dan Reolaeth (£)***
Ecwitis	
Cronfa Twf Byd-eang PPC WS	£4,272,307,438
Cronfa Ecwitis Cyfleoedd Byd-eang PPC WS	£3,957,090,215
Cronfa Cyfleoedd y DU PP Cymru WS	£962,809,075
Cronfa Ecwiti Marchnadoedd Datblygol PP Cymru WS	£450,482,210
Cronfa Ecwiti Actif Cynaliadwy PP Cymru WS	£1,961,410,581
Incwm Sefydlog	
Cronfa Credyd Aml-ased PP Cymru WS	£998,744,473
Cronfa Credyd Byd-eang PP Cymru WS	£1,368,112,884
Cronfa Bondiau Llywodraeth Byd-eang PP Cymru WS	£520,362,255
Cronfa Bondiau Enillion Absoliwt PP Cymru WS	£821,486,839
Cronfa Credyd Sterling PP Cymru WS	£989,364,403
Cyfanswm	**£16,302,170,374**

* Fel ar 30 Mehefin 2026


Gwerthoedd a Chanran Perchnogaeth Is-gronfeydd PPC *

Enw'r gronfa	Gwynedd	Powys	Clwyd	Abertawe	Caerdydd	Torfaen	RCT	Dyfed	Cyfanswm yr Is-gronfa
Ecwitis									
Cronfa Twf Byd-eang PPC WS	£443,967,894 (10%)	£91,292,086 (2%)			£85,968,372 (2%)		£2,237,196,665 (53%)	£1,413,882,421 (33%)	£4,272,307,438 (100%)
Cronfa Cyfleoedd Byd-eang PPC WS	£454,553,846 (11%)			£1,200,558,433 (30%)	£746,259,744 (19%)	£901,419,739 (23%)	£654,298,453 (17%)		£3,957,090,215 (100%)
Cronfa Cyfleoedd y DU PPC WS					£198,950,603 (21%)	£763,858,472 (79%)			£962,809,075 (100%)
Cronfa Ecwiti Marchnadoedd Datblygol PPC WS	£103,992,172 (23%)	£26,514,126 (6%)			£199,984,945 (44%)	£119,990,967 (27%)			£450,482,210 (100%)
Cronfa Ecwiti Actif Cynaliadwy PPC WS	£411,924,076 (21%)	£89,902,156 (5%)	£463,404,817 (24%)	£206,441,243 (11%)	£184,603,422 (9%)	£221,548,030 (11%)	£147,692,682 (7%)	£235,894,156 (12%)	£1,961,410,581 (100%)
Incwm Sefydlog									
Cronfa Credyd Aml-Asedau PPC WS	£266,971,039 (27%)	£39,703,634 (4%)	£430,076,571 (43%)	£78,616,131 (8%)	£183,377,098 (18%)				£998,744,473 (100%)
Cronfa Credyd Byd-eang PPC WS	£353,905,984 (26%)	£18,245,317 (1%)		£158,257,996 (12%)	£154,858,127 (11%)	£282,401,686 (21%)		£400,443,774 (29%)	£1,368,112,884 (100%)
Cronfa Bondiau Llywodraeth Byd-eang PPC WS					£249,475,430 (48%)	£270,886,825 (52%)			£520,362,255 (100%)
Cronfa Bond Enillion Absoliwt PPC WS	£564,271,444 (68%)	£19,649,316 (3%)		£237,566,079 (29%)					£821,486,839 (100%)
Cronfa Credyd Sterling PPC WS			£160,333,214 (16%)				£829,031,189 (84%)		£989,364,403 (100%)
Cyfanswm yr Awdurdod Cyfansoddol	£2,599,586,455	£285,306,635	£1,053,814,602	£1,881,439,882	£2,003,477,741	£2,560,105,719	£3,868,218,989	£2,050,220,351	**£16,302,170,374**


*Fel ar 30 Mehefin 2026

Ciplun o'r Gronfa* - Ecwitis


Twf Byd-eang




Cyfleoedd Byd-eang




Ecwiti Actif Cynaliadwy



Marchnadoedd Datblygol




Cyfleoedd y DU




Ciplun o'r Gronfa* - Incwm Sefydlog


Credyd Sterling




Credyd Byd-eang




Credyd Aml-Ased



Bond Llyw. Byd-eang



Bond Enillion Absoliwt



Mentrau

Cyflawniadau a Diweddariadau Allweddol

Polisi Gwahardd i'w ychwanegu at y Prosbectws a'r IMD gyda Russell Investments

Diweddariadau'r Farchnad

	Gweithgaredd	Statws	Sylwadau
Rwsia / Wcráin	Effaith ar is-gronfeydd ACS sy'n dal cwmnïau Rwsiaidd	Yn parhau	Mae WMUK yn parhau i fonitro'r sefyllfa a bydd yn rhoi gwybod i'r Awdurdodau Cyfansoddol am unrhyw ddatblygiadau. Mae Pwyllgor Prisio Gwerth Teg WMUK yn trafod hyn yn rheolaidd, ac mae asedau'n dal i gael eu prisio yn unol â hynny. Nid oes unrhyw ddaliadau Rwsiaidd yn unrhyw un o gronfeydd y Bartneriaeth.
	Gweithgaredd	**Statws**	**Sylwadau**
Y Dwyrain Canol	Effaith ar is-gronfeydd ACS sy'n dal cwmnïau Israelaidd.	Yn parhau	Ar hyn o bryd mae 4 o warantau yn cael eu dal mewn cwmnïau uniongyrchol o Israel ar draws dwy is-gronfa; Cronfa Cyfleoedd Byd-eang – 3 cwmni gydag amlygiad o 0.30% ar draws cyfanswm yr asedau dan reolaeth. Cronfa Twf Byd-eang – 1 cwmni gydag amlygiad o 0.02% ar draws cyfanswm AUM yr Is-gronfa. BANC HAPOALIM BANK LEUMI ELBIT SYSTEMS LTD SHUFERSAL LTD Un Bond yn cael ei ddal yn y Gronfa Bondiau Llywodraeth Byd-eang – Y daliad yn un de minims Cyfanswm gwerth o tua £12.58m. Mae'r sefyllfa wrthi'n cael ei monitro fel rhan o broses trosolwg BAU. • Ffigurau o ddiwedd 30 Mehefin 2026.

Goruchwylio – Monitro Trydydd Parti

Cynllun 2026

Darparwr Trydydd Parti	Cyfnod Adrodd	Is-gronfa	Lleoliad	Statws
Northern Trust				
Asiantaeth Trosglwyddo yn cynnwys Adolygu Arian Cleientiaid	2026	Pob un	Ar safle, Llundain – Mai 2026	Cynllunio – Cylch Gorchwyl gyda Northern Trust. Gwaith maes i'w gwblhau 7 Gorffennaf 2026 yn Llundain
Gweinyddiaeth y Gronfa ac Adrodd Ariannol	2026	Pob un	Ar safle, Llundain – Tachwedd 2026	Gwaith maes i'w gwblhau ar 10 ac 11 Tachwedd yn Llundain
Dadansoddiad Pris	2026	Pob un	Ar safle, Limerick – 2026	Heb ddechrau
Holiadur 'Parti' Arall	2026	Pob un	Holiadur – Mawrth 2026	Wedi cyhoeddi'r holiadur
Holiadur Diogelwch TG	2026	Pob un	Holiadur – Medi 2026	Heb ddechrau
Diwydrwydd Dyladwy Blynyddol	2026	Pob un	Holiadur – Dyddiad i'w gytuno	Heb ddechrau
Russell Investments				
Diwydrwydd Dyladwy Blynyddol	2026	Pob un	Porth – mis Mawrth 2026	Holiadur wedi'i gwblhau a'i ddychwelyd i WMUK. Ni chodwyd unrhyw bryderon yn dilyn yr ymatebion. Cyfarfod â'r tîm Buddsoddi i'w drefnu ar gyfer Ch3/Ch4 - 2026.

Amserlen Cyfarfodydd / Ymgysylltu

	Amlder	Amcanion
Adolygiad Gweithredol	Pob chwe mis	– Sicrhau aliniad strategol – Adolygiad ar y cyd o'r busnes a nodau, blaenoriaethau ac amcanion strategol
Cyfarfodydd y Cyd-bwyllgor Llywodraethu	Chwarterol	– Metrigau allweddol – Materion perthnasol – Cyflawni'n strategol
Cyfarfodydd y Gweithgor Swyddogion	Chwarterol	– Adnabod a chyflawni cyfleoedd i wella ac ehangu'r berthynas – Darparu diweddariad ar brosiectau neu faterion sy'n agored – Adolygiad DPA Misol (Darperir y data yn chwarterol)
Diweddariad yr Awdurdod Lletyol	Pob pythefnos	– Awdurdod Lletyol Rheolaidd – WMUK i drafod beth sy'n bosib i'w gyflawni, a diweddariadau busnes
Cyfarfodydd y Pwyllgor Pensiwn	Blynyddol	– Diweddariad cyffredinol ar yr ACS a'r mentrau sydd ar y gweill
Ymgysylltu â Chadeiryddion y Bwrdd Pensiwn	Pob chwe mis	– Diweddariad cyffredinol ar yr ACS a'r mentrau sydd ar y gweill
Diwrnodau Ymgysylltu â Rheolwyr	Blynyddol	– Diwrnod agored i gael cyflwyniadau ar strategaeth a pherfformiad (gyda IM)

Presenoldeb y chwarter hwn:

- Gweithgor Swyddogion 9 Mehefin 2026
- Cyd-bwyllgor Llywodraethu 15 Gorffennaf 2026
- Yr Awdurdod Lletyol bob pythefnos

Presenoldeb y chwarter nesaf:

- Gweithgor Swyddogion 21 Gorffennaf 2026 - Rhithwir
- Cyd-bwyllgor Llywodraethu 22 Medi 2026 - Neuadd y Sir, Caerfyrddin

Diolch

Tîm Perthnasau

Enw: James Zealander
Rôl: Uwch Reolwr Perthnasau
Rhif: +44 (0)7522 348 474
E-bost: James.Zealander@waystone.com

Heidi Robinson
Rheolwr Perthnasau

+44 (0) 7843 804917
E-bost: Heidi.Robinson@waystone.com

Enw: Richard Thornton
Rôl: Pennaeth Rheoli Perthnasau - Perchnogion Asedau
Rhif: +44 (0) 7765 220277
E-bost: Richard.Thornton@waystone.com

Cyswllt Prif Swyddog

Enw: Karl Midl
Rôl: Pen Swyddog y Wlad, y DU a Phrif Swyddog Gweithredol
Rhif: +44 (0)7951 266225
E-bost: karl.midl@waystone.com


CBLI – Crynodeb o Berfformiad PPC Ch2 2026

Sylwadau ar y Farchnad Fyd-eang

Dringodd Mynegai Net y Byd MSCI 13.8% (USD), ei berfformiad chwarterol gorau mewn chwe blynedd. Gwnaeth bob marchnad enillion er bod amrywiaeth eang mewn perfformiad. Asia ex Japan oedd y rhanbarth sy'n perfformio orau wedi'i yrru gan stociau sy'n gysylltiedig â deallusrwydd artiffisial (AI), yn enwedig gwneuthurwyr sglodion. Ar ben arall y sbectrwm roedd y DU a Chanada yn tanberfformio. Yn y cyfamser, roedd marchnadoedd datblygol yn gryf. Cyfrannodd frwdfrydedd parhaus dros enwau AI, optimistiaeth gynyddol am drafodaethau heddwch rhwng yr UDA ac Iran a chanlyniadau enillion corfforaethol cadarn at deimlad cadarnhaol y farchnad, a helpodd i wthio'r mynegai byd-eang i uchafbwyntiau newydd. Cyrhaeddodd olew uchafbwynt o dros $110 y gasgen ddechrau mis Ebrill ond gostyngodd yn sydyn ym mis Mehefin yn dilyn adroddiadau o fargen interim rhwng yr Unol Daleithiau ac Iran. Mae marchnadoedd wedi ail-raddnodi disgwyliadau cyfraddau llog yng nghanol ofn cynyddol o chwyddiant, tra bod banciau canolog wedi mabwysiadu dull aros a gweld. Banc Canolog Ewrop (ECB) oedd y banc canolog mawr cyntaf i godi cyfraddau mewn ymateb i'r sioc ynni. Cododd Bank of Japan (BoJ) gyfraddau hefyd, yr uchaf mewn 31 mlynedd, ym mis Mehefin.

Yn y DU, cododd arenillion giltiau gyda disgwyliadau cryf y byddai Banc Lloegr (BoE) yn cael ei orfodi i godi cyfraddau llog i frwydro yn erbyn effaith chwyddiannol prisiau ynni cynyddol. Bu dyfalu am ddyfodol y prif weinidog ac ychwanegodd hyn at y naws ofalus wrth i farchnadoedd fod yn wyliadwrus o newid mewn arweinyddiaeth oherwydd pryderon y gallai arwain at wariant cyllidol uwch. Cododd arenillion giltiau deng mlynedd uwchlaw 5.0% yn gynnar ym mis Mai, gan gyrraedd yr uchaf ers haf 2008. Mae arenillion giltiau efo dyddiad pell wedi cyrraedd lefelau a welwyd ddiwethaf ym 1998. Yn ddiweddarach, tynnodd arenillion deng mlynedd yn ôl yng nghanol prisiau olew sy'n cwympo ac optimistiaeth gynyddol dros gael bargen heddwch rhwng yr Unol Daleithiau ac Iran. Cyfrannodd chwyddiant gwannach na'r disgwyl, data PMI meddal a gwerthiannau manwerthu cynnil hefyd at ostyngiad mewn arenillion gyda disgwyliadau'r farchnad ar gyfer codiadau cyfradd wedi'u lleihau. Gadawodd Banc Lloegr gyfraddau heb eu newid yn ei gyfarfodydd polisi ym mis Ebrill a mis Mehefin yn erbyn cefndir o dwf economaidd araf a marchnad lafur sy'n oeri. Roedd ymateb y farchnad i ymddiswyddiad y prif weinidog ym mis Mehefin yn dawel wrth i bwyslais buddsoddwyr droi at gynlluniau polisi cyllidebol ei olynydd tebygol, Andy Burnham. Dros y chwarter, disgynnodd yr arenillion ar giltiau deng mlynedd 16 bps i 4.76%.

Perfformiad dosbarth asedau – Y Chwarter hyd yma (Mehefin 2026)



Meincnodau: Global equity hedged (MSCI World ACWI), Ecwiti y DU (FTSE All Share), Ecwiti y DU hedged (Russell 1000 Net GBPH), Ewrop ex ecwiti y DU (MSCI Ewrop ex Ecwiti y DU Net GBPH), ecwiti Japan (TOPIX Net GBPH), Ecwiti marchnadoedd datblygol (MSCI Emerging Markets Net), Global HY bonds (BofAML Global High Yield 2% Constrained Index), EMD LC (JP Morgan GBI-EM Global Diversified Index), Global credit hedged (Bloomberg Barclays Global Aggregate Credit Index), Global aggregate hedged (Bloomberg Barclays Global Aggregate Bond Index GBPH), UK Government Bonds (ICEBofAML UK Gilts All Stocks (GB), Property hedged (FTSEEPRA Nareit Dev Re GBP)

Mae'r ddogfen hon wedi'i pharatoi ar gyfer swyddogion PPC yn seiliedig ar berfformiad gan Northern Trust. Mae dyddiadau cychwyn yn seiliedig ar y NAV cychwynnol ar gyfer yr is-gronfa. Gall dyddiadau cychwyn (ac felly perfformiad) fod yn wahanol i'r rheolwr buddsoddi, sydd fel arfer yn cymryd drosodd ar ôl cyfnod pontio.

Crynodeb o Is-gronfa PPC (Gros):

Perfformiad Gros PPC	Ch2 2026			Blwyddyn			Tair Blynedd			Ers Cychwyn			Dyddiad Cychwyn
	Is-gronfa	Meincnod	Gormodedd	Is-gronfa	Meincnod	Gormodedd	Is-gronfa	Meincnod	Gormodedd	Is-gronfa	Meincnod	Gormodedd	
Cronfa Twf Byd-eang	14.0	14.2	**-0.2**	24.1	27.7	**-3.6**	14.6	17.3	**-2.7**	11.7	13.2	**-1.5**	31/01/2019
Cronfa Ecwiti Cyfleoedd Byd-eang	12.6	14.2	**-1.6**	27.4	27.7	**-0.3**	17.9	18.0	**-0.1**	14.2	13.5	**0.7**	31/01/2019
Cronfa Ecwiti Actif Cynaliadwy	14.6	14.2	**0.4**	25.7	27.7	**-2.0**	14.2	18.0	**-3.8**	14.6	18.6	**-4.0**	23/06/2023
Cronfa Ecwiti Marchnadoedd Datblygol	25.8	23.3	**2.5**	54.0	48.8	**5.2**	23.3	21.6	**1.7**	11.0	9.8	**1.2**	20/10/2021
Cronfa Ecwiti Cyfleoedd y DU	7.2	4.7	**2.5**	17.4	21.9	**-4.5**	14.3	15.3	**-1.0**	8.1	8.8	**-0.7**	23/09/2019
Cronfa Bondiau Llywodraeth Byd-Eang	0.8	1.1	**-0.3**	2.0	2.3	**-0.3**	3.4	3.2	**0.2**	-0.3	-0.9	**0.6**	30/07/2020
Cronfa Credyd Byd-Eang	1.8	1.8	**0.0**	4.4	4.3	**0.1**	5.6	5.4	**0.2**	0.4	0.4	**0.0**	27/07/2020
Cronfa Credyd Aml-ased	3.0	1.9	**1.1**	8.2	8.1	**0.1**	8.8	8.9	**-0.1**	4.6	7.1	**-2.5**	27/07/2020
Cronfa Strategaeth Bond Enillion Absoliwt	1.9	1.5	**0.4**	5.2	6.1	**-0.9**	6.8	6.8	**0.0**	4.6	5.1	**-0.5**	30/09/2020
Cronfa Credyd Sterling	2.6	2.6	**0.0**	4.0	4.2	**-0.2**	6.9	6.4	**0.5**	0.4	-0.4	**0.8**	27/07/2020

Crynodeb o Is-gronfa PPC (Net):

Perfformiad Net PPC	Ch2 2026			Blwyddyn			Tair Blynedd			Ers Cychwyn			Dyddiad Cychwyn
	Is-gronfa	Meincnod	Gormodedd	Is-gronfa	Meincnod	Gormodedd	Is-gronfa	Meincnod	Gormodedd	Is-gronfa	Meincnod	Gormodedd	
Cronfa Twf Byd-eang	14.0	14.2	**-0.2**	23.7	27.7	**-4.0**	14.3	17.3	**-3.0**	11.3	13.2	**-1.9**	31/01/2019
Cronfa Ecwiti Cyfleoedd Byd-eang	12.5	14.2	**-1.7**	27.0	27.7	**-0.7**	17.6	18.0	**-0.4**	13.8	13.5	**0.3**	31/01/2019
Cronfa Ecwiti Actif Cynaliadwy	14.5	14.2	**0.3**	25.3	27.7	**-2.4**	13.7	18.0	**-4.3**	14.2	18.6	**-4.4**	23/06/2023
Cronfa Ecwiti Marchnadoedd Datblygol	25.7	23.3	**2.4**	53.3	48.8	**4.5**	22.8	21.6	**1.2**	10.6	9.8	**0.8**	20/10/2021
Cronfa Ecwiti Cyfleoedd y DU	7.1	4.7	**2.4**	17.0	21.9	**-4.9**	13.9	15.3	**-1.4**	7.7	8.8	**-1.1**	23/09/2019
Cronfa Bondiau Llywodraeth Byd-Eang	0.8	1.1	**-0.3**	1.7	2.3	**-0.6**	3.1	3.2	**-0.1**	-0.5	-0.9	**0.4**	30/07/2020
Cronfa Credyd Byd-Eang	1.7	1.8	**-0.1**	4.2	4.3	**-0.1**	5.4	5.4	**0.0**	0.2	0.4	**-0.2**	27/07/2020
Cronfa Credyd Aml-ased	2.9	1.9	**1.0**	7.9	8.1	**-0.2**	8.4	8.9	**-0.5**	4.2	7.1	**-2.9**	27/07/2020
Cronfa Strategaeth Bond Enillion Absoliwt	1.8	1.5	**0.3**	4.8	6.1	**-1.3**	6.6	6.8	**-0.2**	4.3	5.1	**-0.8**	30/09/2020
Cronfa Credyd Sterling	2.5	2.6	**-0.1**	3.9	4.2	**-0.3**	6.8	6.4	**0.4**	0.3	-0.4	**0.7**	27/07/2020

Noder: Mae'r dyddiad cychwyn yn seiliedig ar NAV cychwynnol ar gyfer yr is-gronfa. Gall y dyddiad cychwyn hwn (ac felly y perfformiad gwirioneddol) fod yn wahanol i'r rheolwr buddsoddi, sydd fel arfer yn cymryd drosodd ar ôl cyfnod pontio.

Cronfa Ecwiti Twf Byd-eang:

Mae disgwyl i'r is-gronfa berfformio'n well o **2.0%** yn uwch na meincnod yr is-gronfa gros o ffioedd, dros y tymor hwy.

	Ch2 2026	Blwyddyn	3 Blynedd	5 Mlynedd	Ers Cychwyn
Gros	14.0	24.1	14.6	8.2	11.7
Net	14.0	23.7	14.3	7.9	11.3
Mynegai MSCI AC World Net*	14.2	27.7	17.3	11.5	13.2
Enillion dros ben(gros)	-0.2	-3.6	-2.7	-3.3	-1.5
Enillion dros ben (Net)	-0.2	-4.0	-3.0	-3.6	-1.9

Dyddiad Cychwyn: 18 Tachwedd 2024
Ffynhonnell: Northern Trust fel ar 30 Mehefin 2026
Meincnod: Mynegai Enillion Net MSCI AC World GBP 0
***Mae'r ffigyrau'n cynnwys saib yn y perfformiad ym mis Tachwedd 2024 wrth bontio'r Gronfa.**

Noder bod Russell Investments wedi cymryd drosodd mandad y Gronfa Ecwiti Twf Byd-eang ar 18 Tachwedd 2024.

Mae'r dyddiad cychwyn yn seiliedig ar NAV cychwynnol ar gyfer yr is-gronfa. Gall y dyddiad cychwyn hwn (ac felly y perfformiad) fod yn wahanol i'r rheolw(y)r buddsoddi, sydd fel arfer yn cymryd drosodd ar ôl cyfnod pontio.

Sylwadau ar y Gronfa Gyffredinol

Bu i'r Gronfa gofnodi elw absoliwt positif dros yr ail chwarter ond gorffennodd y tu ôl i'r meincnod ar sail gymharol.

O fewn amgylchedd y farchnad, roedd amlygiad gwerth y Gronfa a'r gogwydd i ffwrdd o fomentwm yn rhwystr. Ar lefel sector, roedd amlygiad tanbwysau a dewis stoc o fewn technoleg gwybodaeth yn tynnu oddi wrth elw cymharol, gan gynnwys tanbwysau i Micron Technology, Advanced Micro Devices ac Intel. Fodd bynnag, gwobrwywyd gorbwysau i TSMC ac ASML Holding. Roedd dewis stoc o fewn meysydd ariannol yn aneffeithiol (trosbwysau CME Group, Moody's, Mastercard). Nid oedd gorbwysau a dewis stoc o fewn deunyddiau yn ddefnyddiol. Ar nodyn cadarnhaol, roedd tanbwysau a dewis stoc o fewn y maes ynni yn effeithiol (tanbwysau Exxon Mobil). Mewn gofal iechyd a nwyddau disgresiynol defnyddwyr, er bod gorbwysau i'r sectorau yn tynnu oddi wrth hyn, cafodd dewis stoc ei wobrwyo (Humana, Intercontinental Hotels Group, yn y drefn honno). Roedd tanbwysau a dewis stoc o fewn gwasanaethau cyfathrebu hefyd yn fuddiol (gorbwysau Alphabet).

Cronfa Ecwiti Cyfleoedd Byd-eang:

Mae disgwyl i'r is-gronfa berfformio'n well o **2.0%** yn uwch na meincnod yr is-gronfa gros o ffioedd, dros y tymor hwy.

	Ch2 2026	Blwyddyn	3 Blynedd	5 Mlynedd	Ers Cychwyn
Gros	12.6	27.4	17.9	12.1	14.2
Net	12.5	27.0	17.6	11.8	13.8
Mynegai MSCI AC World Net	14.2	27.7	18.0	11.9	13.5
Enillion dros ben (gros)	-1.6	-0.3	-0.1	0.2	0.7
Enillion dros ben (Net)	-1.7	-0.7	-0.4	-0.1	0.3

Dyddiad Cychwyn: COB 31 Ionawr 2019

Ffynhonnell: Northern Trust fel ar 30 Mehefin 2026

Meincnod: Mynegai Enillion Net MSCI AC World GBP

Mae'r dyddiad cychwyn yn seiliedig ar NAV cychwynnol ar gyfer yr is-gronfa. Gall y dyddiad cychwyn hwn (ac felly y perfformiad) fod yn wahanol i'r rheolw(y)r buddsoddi, sydd fel arfer yn cymryd drosodd ar ôl cyfnod pontio.

Sylwadau ar y Gronfa Gyffredinol

Bu i'r Gronfa gofnodi elw absoliwt positif dros yr ail chwarter ond gorffennodd y tu ôl i'r meincnod ar sail gymharol.

Yn amgylchedd y farchnad, roedd gogwydd y Gronfa at werth yn rhwystr. Mewn sectorau, roedd amlygiad tanbwysau a dewis stoc o fewn technoleg gwybodaeth yn amhariad allweddol. Roedd hyn yn cynnwys tanbwysau i Advanced Micro Devices, Micron Technology ac Intel. Fodd bynnag, llwyddodd gorbwysau i Samsing Electronics a Seagate Technology Holdings i leddfu rhywfaint ar yr effaith negyddol. Roedd amlygiad trosbwysau a dewis stoc o fewn deunyddiau yn aneffeithiol (gorbwysau AngloGold Ashanti). Mewn gwasanaethau cyfathrebu, nid oedd gorbwysau i'r sector a dewis stoc yn ddefnyddiol (trosbwysau Meta, Vodafone). Mewn mannau eraill, gwelwyd dewis stoc aneffeithiol o fewn gofal iechyd mewn gorbwysau i HCA Healthcare. Ar nodyn cadarnhaol, roedd dewis stoc o fewn diwydiannau yn ddefnyddiol (safleoedd oddi ar feincnod yn Nisshinbo Holdings, Toto). Roedd dyraniadau a dewis mewn nwyddau hanfodol cwsmeriaid yn atodol (tanbwysau Walmart). Roedd amlygiad tanbwysau i'r sector cyfleustodau hefyd yn ddefnyddiol.

Cronfa Ecwiti Actif Cynaliadwy:

Mae disgwyl i'r is-gronfa berfformio'n well o **2.0%** yn uwch na meincnod yr is-gronfa gros o ffioedd, dros y tymor hwy.

	Ch2 2026	Blwyddyn	3 Blynedd	Ers Cychwyn
Gros	14.6	25.7	14.2	14.6
Net	14.5	25.3	13.7	14.2
Mynegai MSCI AC World Net	14.2	27.7	18.0	18.6
Enillion dros ben (gros)	0.4	-2.0	-3.8	-4.0
Enillion dros ben (Net)	0.3	-2.4	-4.3	-4.4

Dyddiad Cychwyn: COB 23 Mehefin 2023

Ffynhonnell: Northern Trust fel ar 30 Mehefin 2026

Meincnod: Mynegai Enillion Net MSCI AC World GBP

Mae'r dyddiad cychwyn yn seiliedig ar NAV cychwynnol ar gyfer yr is-gronfa. Gall y dyddiad cychwyn hwn (ac felly y perfformiad) fod yn wahanol i'r rheolw(y)r buddsoddi, sydd fel arfer yn cymryd drosodd ar ôl cyfnod pontio.

Sylwadau ar y Gronfa Gyffredinol

Perfformiodd y Gronfa yn well na'r meincnod yn yr ail chwarter.

Cafodd gogwydd y Gronfa i ffwrdd o stociau twf ei wobrwyo yn yr amgylchedd hwn. Ar sail ranbarthol, roedd lleoli a dewis yn gadarnhaol yn yr Almaen (tanbwysau) a De Korea (trosbwysau) a throsbwysau i Taiwan, gydag amlygiad i TSMC. Ar lefel y sector, cyfrannodd tanbwysau i ynni a dewis stoc o fewn deunyddiau ymhellach at berfformiad cymharol. Cafodd dewis o fewn y sector ariannol hefyd ei wobrwyo. Fodd bynnag, mae gorbwysau a dewis o fewn gofal iechyd yn gwrthbwyso'r perfformiad negyddol yn rhannol.

Sylwadau ar Farchnadoedd Datblygol

Mae marchnadoedd datblygol (EM) wedi perfformio'n well na'r mynegai byd-eang a phob marchnad arall ac eithrio Asia (ac Asia Môr Tawel ac eithrio Japan). De Korea oedd y perfformiwr gorau o gryn dipyn, wedi'i yrru gan wneuthurwyr sglodion a wnaeth elw o alw cynyddol am sglodion cof lled band uchel. Mae'r rali mewn stociau sglodion wedi gwthio cap marchnad Samsung Electronics a SK Hynix i fwy na $1 triliwn. Cyrhaeddodd marchnad stoc Taiwan lefelau uwch nag erioed, wedi'i yrru gan ei goruchafiaeth o'r diwydiant lled-ddargludyddion. Mewn mannau eraill, roedd marchnad Hwngari yn perfformio'n well. Croesawodd buddsoddwyr ganlyniad yr etholiad seneddol lle cafodd y prif weinidog ers tro, Viktor Orbán, ei ddiarddel gan blaid Tiszra, sy'n gobeithio am berthynas agosach â'r Undeb Ewropeaidd.

Roedd Indonesia, Brasil a Tsieina ar waelod y tabl. Cafodd marchnad Indonesia ei heffeithio gan bryderon cyllidol, all-lifau cyfalaf tramor mawr ac arian cyfred gwannach. Rhybuddiodd MSCI a S&P am israddio i statws marchnad ffiniol tra bod Fitch wedi torri'r rhagolygon credyd ar gyfer pedwar o brif fanciau'r wlad o 'sefydlog' i 'negyddol'. Roedd gan farchnad Brasil hefyd amheuon am y rhagolygon cyllidol ac effeithiwyd ar ei marchnad nwyddau wrth i brisiau ostwng. Ar ben hynny, fe wnaeth twf GDP uwchlaw'r rhagolwg gryfhau'r disgwyliadau o safiad mwy hebogaidd gan y banc canolog, a oedd yn pwyso ar ecwiti. Mae Tsieina hefyd wedi colli allan i raddau helaeth ar frwdfrydedd buddsoddwyr ar gyfer enwau sy'n gysylltiedig â deallusrwydd artiffisial ac roedd ansicrwydd polisi masnachu a thensiynau geowleidyddol yn effeithio arni, yn enwedig gydag Ewrop. Mae'r economi yn parhau i fod yn araf ac roedd diffyg mesurau ysgogi ystyrlon gan y llywodraeth yn golygu nad oedd hwb i sbarduno diddordeb buddsoddwyr.

Cronfa Ecwiti Marchnadoedd Datblygol:

Mae disgwyl i'r is-gronfa berfformio'n well o **2.0%** yn uwch na meincnod yr is-gronfa gros o ffioedd, dros y tymor hwy.

	Ch2 2026	Blwyddyn	3 Blynedd	Ers Cychwyn
Gros	25.8	54.0	23.3	11.0
Net	25.7	53.3	22.8	10.6
Mynegai Marchnadoedd Datblygol yr MSCI	23.3	48.8	21.6	9.8
Enillion dros ben (gros)	2.5	5.2	1.7	1.2
Enillion dros ben (Net)	2.4	4.5	1.2	0.8

Dyddiad Cychwyn: COB 20 Hydref 2021

Ffynhonnell: Northern Trust fel ar 30 Mehefin 2026

Meincnod: Mynegai Marchnadoedd Datblygol yr MSCI Net

Mae'r dyddiad cychwyn yn seiliedig ar NAV cychwynnol ar gyfer yr is-gronfa. Gall y dyddiad cychwyn hwn (ac felly y perfformiad) fod yn wahanol i'r rheolw(y)r buddsoddi, sydd fel arfer yn cymryd drosodd ar ôl cyfnod pontio.

Sylwadau ar y Gronfa Gyffredinol

Perfformiodd y Gronfa yn well na'r enillion meincnod dros yr ail chwarter.

Roedd amlygiad gogwydd y Gronfa tuag at stociau twf a safonol yn ffafriol yn ystod y cyfnod, er nad oedd gogwydd tuag at stociau cap bach yn cael ei wobrwyo gan fod enwau gwerth cap mawr yn arwain y farchnad yn uwch. Ar lefel y wlad, gwobrwywyd y dewis stoc positif o fewn marchnad gref De Corea, Taiwan. Yn y cyfamser cafodd dewis o fewn marchnad wan Tsieina/HK ei wobrwyo. Roedd hyn yn cynnwys amlygiad trosbwysau i enwau yn y maes technoleg, Samsung Electro-Mechanics a SK Hynix yn Ne Corea. Cyfrannodd safle tanbwysau o fewn Saudi Arabia ac India ymhellach at berfformiad cymharol. Fodd bynnag, roedd gorbwysau i Brasil a thanbwysau i Taiwan yn cyfyngu ar ragor o berfformiad gwell. Roedd dewis stoc effeithiol o fewn technoleg gwybodaeth a nwyddau disgresiynol defnyddwyr yn cyfrannu ymhellach, gyda gorbwysau i Samsung Electro-Mechanics a SK Hynix mewn TG yn cyfrannu at hynny. Ar lefel rheolwr, Bin Yuan oedd y perfformiwr amlycaf, gan elwa o ogwydd twf a dewis stoc effeithiol (technoleg gwybodaeth). Oaktree oedd y rheolwr a berfformiodd wannaf y chwarter hwn, gan fod eu harddull fuddsoddi yn parhau i fod yn amhoblogaidd.

Sylwadau ar Farchnad y DU

Mae ecwiti'r DU wedi tanberfformio'r mynegai byd-eang a'r holl farchnadoedd eraill, wedi'u rhwystro gan ddiffyg cwmnïau technoleg mawr. Y sectorau nwyddau dewisol defnyddwyr (International Consolidated Airlines Group) ac ariannol (Standard Chartered, Barclays) oedd y sectorau oedd yn perfformio orau tra bod ynni yn cael trafferth (BP, Shell). Roedd ansicrwydd gwleidyddol yn pwyso ar deimladau wrth i'r dyfalu am ddyfodol y prif weinidog gynyddu yn dilyn canlyniadau etholiadau lleol digalon i'r Blaid Lafur oedd yn llywodraethu. Ymddiswyddodd y Prif Weinidog Keir Starmer ddiwedd mis Mehefin, gan ysgogi disgwyliadau eang mai'r Aelod Seneddol poblogaidd Andy Burnham, o'r asgell chwith, fyddai'r prif weinidog nesaf wedi iddo ddychwelyd i San Steffan. Yn y cyfamser, ehangodd yr economi 0.6% QoQ yn y chwarter cyntaf, gan gryfhau o dwf o 0.1% yn y chwarter blaenorol, o ganlyniad i gynnydd mewn gweithgarwch y sector gwasanaeth. Fodd bynnag, gostyngodd twf GDP 0.1% MoM ym mis Ebrill ar ôl cynnydd o 0.3% ym mis Mawrth sy'n adlewyrchu effaith y gwrthdaro yn y Dwyrain Canol. Er bod y prif chwyddiant wedi gostwng i 2.8% YoY ym mis Ebrill o 3.3%, roedd yn ymwneud yn bennaf â chyflwyno'r cap ar brisiau ynni. Roedd chwyddiant heb newid ym mis Mai, yn is na'r rhagolwg consensws o 3.0%, tra bod chwyddiant craidd wedi codi'n llai na'r disgwyl i 2.6% o 2.5%. Mewn mannau eraill, dringodd gwerthiannau manwerthu tebyg 3.7% YoY ym mis Mai, gan guro disgwyliadau o gynnydd o 0.6%, fodd bynnag, roedd y canlyniad yn cael ei yrru i raddau helaeth gan alw tymhorol.

Cronfa Cyfleoedd Ecwiti y DU:

Mae disgwyl i'r is-gronfa berfformio'n well o **2.0%** yn uwch na meincnod yr is-gronfa gros o ffioedd, dros y tymor hwy.

	Ch2 2026	Blwyddyn	3 Blynedd	5 Mlynedd	Ers Cychwyn
Gros	7.2	17.4	14.3	8.8	8.1
Net	7.1	17.0	13.9	8.4	7.7
FTSE All Share	4.7	21.9	15.3	10.9	8.8
Enillion dros ben (gros)	2.5	-4.5	-1.0	-2.1	-0.7
Enillion dros ben (Net)	2.4	-4.9	-1.4	-2.5	-1.1

Dyddiad Cychwyn: COB 23 Medi 2019

Ffynhonnell: Northern Trust fel ar 30 Mehefin 2026

Meincnod: Mynegai FTSE All-Share

Mae'r dyddiad cychwyn yn seiliedig ar NAV cychwynnol ar gyfer yr is-gronfa. Gall y dyddiad cychwyn hwn (ac felly y perfformiad) fod yn wahanol i'r rheolw(y)r buddsoddi, sydd fel arfer yn cymryd drosodd ar ôl cyfnod pontio.

***Ffigyrau enillion cychwynnol wrth i Russell Investments gysoni anghysondebau gyda NT**

Sylwadau ar y Gronfa Gyffredinol

Perfformiodd y Gronfa yn well na'r meincnod yn ail chwarter 2026.

Cyfrannodd gogwydd y Gronfa tuag at stociau cyfalafu bach at berfformiad cymharol mewn cyfnod lle arweiniodd enwau cyfalafu mawr y farchnad yn uwch. Cyfrannodd safle sector a dewis stoc at berfformiad cymharol. Roedd hyn yn cynnwys y safle a'r detholiad o fewn technoleg gwybodaeth (trosbwysau), gofal iechyd (tanbwysau), ynni (trosbwysau) a deunyddiau (tanbwysau). Ar lefel stoc, roedd tanbwysau i Shell, AstraZeneca a BAE Systems yn gyfranwyr allweddol. Fodd bynnag, mae tanbwysau i sectorau ariannol a dewis stoc o fewn cyfleustodau yn cyfyngu perfformiad pellach. Gyrrwyd hyn gan orbwysau i Centrica a Grŵp Pennon ar lefel stoc. Ar wahân i Jupiter, perfformiodd yr holl reolwyr sylfaenol yn well yn y chwarter hwn, gyda Baillie Gifford yn perfformio gryfaf.

Sylwadau ar y Farchnad Incwm Sefydlog

Yn yr Unol Daleithiau, roedd arenillion deng mlynedd y Trysorlys yn amrywio mewn ymateb i ddatblygiadau yn y gwrthdaro rhwng yr Unol Daleithiau ac Iran, gan gyrraedd y lefel uchaf mewn 18 mis yng nghanol mis Mai gyda phryderon am chwyddiant. Cododd chwyddiant CPI pennawd i 3.8% flwyddyn ar flwyddyn ym mis Ebrill, i fyny o 3.3%, a dringo ymhellach i 4.2% ym mis Mai, oherwydd costau ynni uwch. Yn y cyfamser, sbardunodd y data economaidd cadarn ddisgwyliadau cynyddol o gyfraddau llog uwch. Roedd creu swyddi yn uwch o lawer na'r rhagolygon ym mis Ebrill a mis Mai gydag ehangu mewn hamdden a lletygarwch (gyda hwb yn ôl pob tebyg gan Gwpan Pêl-droed y Byd oedd ar fin digwydd), llywodraeth leol a gofal iechyd. Mae PMIs mewn gweithgynhyrchu a gwasanaethau ar gyfer mis Mai a (rhagarweiniol) Mehefin wedi curo amcangyfrifon a gwerthiant mewn manwerthu wedi cryfhau. Gadawodd y Federal Reserve (Fed) gyfraddau heb eu newid yn ei gyfarfodydd polisi ym mis Ebrill a mis Mehefin. Yr olaf oedd cyfarfod polisi cyntaf cadeirydd newydd y Fed, Kevin Warsh, ac ar ôl hynny roedd ei dôn yn hebogaidd wrth iddo bwysleisio ei ymrwymiad i frwydro yn erbyn chwyddiant; nododd llunwyr polisi o leiaf un codiad cyfradd erbyn diwedd y flwyddyn. Dros y chwarter, cododd yr arenillion ar Drysorlysoedd 10 mlynedd o 15 pwynt sylfaen (bps) i 4.47%.

Tynhaodd gwasgariadau credyd, yn fras mewn digidau dwbl dros yr ail chwarter. Arenillion uchel oedd y perfformiwr gorau wrth i'r awydd am risg wella gydag arwyddion o ddatblygiadau mewn trafodaethau heddwch rhwng yr Unol Daleithiau ac Iran a gwytnwch yn economi'r UD. Fe wnaeth arenillion uchel yn fyd-eang a gwasgariadau arenillion uchel yn Ewrop gulhau o 63 bps i 280 a 269, yn y drefn honno. Tynhaodd wasgariadau uchel y DU o 47 bps i 270. Roedd tynhau gwasgariad gradd buddsoddi yn fwy cymedrol ond yn dal i fod mewn digidau dwbl. Mae gwasgariadau credyd graddfa buddsoddi byd-eang ac UD wedi culhau o 14 bps i 70 a 69, yn y drefn honno. Roedd gwasgariadau graddfa buddsoddi Ewropeaidd 13 bps yn dynnach ar 67; Roedd gwasgariadau graddfa buddsoddi Ewropeaidd hefyd yn 67 (10 bps yn gulach). Cododd EMD arian caled, fel y'i mesurir gan Mynegai Byd-eang JPM EMBI, 4.0%. Gwelwyd cynnydd tebyg mewn arian cyfred lleol (EMD), fel y'i mesurir gan Fynegai JP Morgan GBI-EM Global Diversified, i fyny 3.9% dros y chwarter, gan elwa o gario cryf a gwella ac agwedd at risg wrth i densiynau geowleidyddol ynghylch y Dwyrain Canol ddechrau lleddfu a phrisiau olew yn disgyn yn ôl yn gyflym.

Cronfa Bondiau Llywodraeth Byd-Eang:

Mae disgwyl i'r is-gronfa berfformio'n well o **0.70%** yn uwch na meincnod yr is-gronfa gros o ffioedd, dros y tymor hwy.

	Ch2 2026	Blwyddyn	3 Blynedd	5 Mlynedd	Ers Cychwyn
Gros	0.8	2.0	3.4	-0.2	-0.3
Net	0.8	1.7	3.1	-0.4	-0.5
Mynegai FTSE World Gvt Bond (GBP Hedged)	1.1	2.3	3.2	-0.6	-0.9
Enillion dros ben (gros)	-0.3	-0.3	0.2	0.4	0.6
Enillion dros ben (Net)	-0.3	-0.6	-0.1	0.2	0.4

Dyddiad Cychwyn: COB 30 Gorffennaf 2020

Ffynhonnell: Northern Trust fel ar 30 Mehefin 2026 Meincnod:

Mynegai FTSE World Government Bond (GBP Hedged)

Mae'r dyddiad cychwyn yn seiliedig ar NAV cychwynnol ar gyfer yr is-gronfa. Gall y dyddiad cychwyn hwn (ac felly y perfformiad) fod yn wahanol i'r rheolw(y)r buddsoddi, sydd fel arfer yn cymryd drosodd ar ôl cyfnod pontio.

Sylwadau ar y Gronfa Gyffredinol

Cofnododd y Gronfa enillion absoliwt cadarnhaol ond roedd y Gronfa ar ôl meincnod Mynegai FTSE World Government Bond GBP Hedged.

O fewn amgylchedd y farchnad, mae'r amlygiad tanbwysau tuag at fondiau craidd Ardal yr Ewro a'r gorbwysau i Drysorlysau byrdymor yr Unol Daleithiau wedi tynnu oddi ar enillion cymharol. Aeth tanbwysau i gyfraddau yn Tsieina hefyd heb ei wobrwyo. Fodd bynnag, cyfrannodd amlygiad dros bwysau i farchnadoedd datblygol gan gynnwys Mecsico, Gwlad Pwyl a Colombia yn gadarnhaol. Mae gorbwysau i gyfraddau mewn marchnadoedd datblygedig traddodiadol Awstralia a Seland Newydd a thanbwysau i gyfraddau yn Japan hefyd wedi helpu i gyfyngu ar danberfformiad pellach.

Cronfa Credyd Byd-Eang:

Mae disgwyl i'r is-gronfa berfformio'n well o **0.75%** yn uwch na meincnod yr is-gronfa gros o ffioedd, dros y tymor hwy.

	Ch2 2026	Blwyddyn	3 Blynedd	5 Mlynedd	Ers Cychwyn
Gros	1.8	4.4	5.6	0.1	0.4
Net	1.7	4.2	5.4	-0.1	0.2
Bloomberg Barclays Global Agg Mynegai Credyd (GBP Hedged)	1.8	4.3	5.4	0.3	0.4
Enillion (gros)	0.0	0.1	0.2	-0.2	0.0
Enillion dros ben (Net)	-0.1	-0.1	0.0	-0.4	-0.2

Dyddiad Cychwyn: COB 27 Gorffennaf 2020

Ffynhonnell: Mynegai Northern Trust fel ar 30 Mehefin 2026

Meincnod: Mynegai Credyd Bloomberg Barclays Global Aggregate (GBP Hedged)

Mae'r dyddiad cychwyn yn seiliedig ar NAV cychwynnol ar gyfer yr is-gronfa. Gall y dyddiad cychwyn hwn (ac felly y perfformiad) fod yn wahanol i'r rheolw(y)r buddsoddi, sydd fel arfer yn cymryd drosodd ar ôl cyfnod pontio.

Sylwadau ar y Gronfa Gyffredinol

Daeth y Gronfa i ben yn fflat gyda'r enillion meincnod dros yr ail chwarter.

O fewn amgylchedd y farchnad er bod y Gronfa wedi elwa o ddyraniadau mewn credyd corfforaethol, cafodd hyn ei wrthbwyso'n rhannol gan effeithiau negyddol mewn mannau eraill, gan gynnwys FX a dyled arian cyfred caled marchnad ddatblygol. Y prif gyfrannwr cadarnhaol mewn credyd corfforaethol oedd amlygiad gorbwyso i arenillion uchel yr Unol Daleithiau, yn enwedig y sector ariannol. Fodd bynnag, mae dyraniadau i radd fuddsoddi yr Unol Daleithiau wedi tynnu oddi wrth hynny, yn bennaf oherwydd tanbwysau i'r sector diwydiannol. Mewn credyd Ewropeaidd, nid oedd dyraniadau i'r sector ariannol ag arenillion uchel a'r sector diwydiannol graddfa buddsoddi yn ddefnyddiol tra bod gorbwysau i'r sector ariannol graddfa buddsoddi yn fuddiol. Mewn mannau eraill, fe wnaeth gorbwysau i raddfa buddsoddi ariannol Awstralia a thanbwysau i raddfa buddsoddi Canada (ariannol, diwydiannau) dynnu oddi wrth hyn. Mewn dyled arian cyfred caled marchnad ddatblygol, gwelwyd yr effaith negyddol fwyaf mewn amlygiad tanbwysau i raddfa buddsoddi yn y Dwyrain Canol. Ar ben hynny, roedd amlygiad tanbwysau i ddyled sofran Sbaen hefyd yn aneffeithiol.

Cronfa Credyd Aml-ased:

Mae'r is-gronfa yn anelu at gyflawni cyfanswm enillion (y cyfuniad o incwm a thwf cyfalaf), sy'n cyfateb i'r **GBP SONIA + 4%** tri mis**,** dros unrhyw gyfnod o bum mlynedd, ar ôl i'r holl gostau a ffioedd gael eu cymryd.

	Ch2 2026	Blwyddyn	3 Blynedd	5 Mlynedd	Ers Cychwyn
Gros	3.0	8.2	8.8	3.6	4.6
Net	2.9	7.9	8.4	3.2	4.2
3 Mis GBP SONIA + 4%	1.9	8.1	8.9	7.7	7.1
Enillion dros ben (gros)	1.1	0.1	-0.1	-4.1	-2.5
Enillion dros ben (Net)	1.0	-0.2	-0.5	-4.5	-2.9
Meincnod dyrannu asedau strategol	2.6	6.5	7.9	4.1	-

Dyddiad Cychwyn: COB 27 Gorffennaf 2020

Ffynhonnell: Northern Trust fel ar 30 Mehefin 2026

Mae'r dyddiad cychwyn yn seiliedig ar NAV cychwynnol ar gyfer yr is-gronfa. Gall y dyddiad cychwyn hwn (ac felly y perfformiad) fod yn wahanol i'r rheolw(y)r buddsoddi, sydd fel arfer yn cymryd drosodd ar ôl cyfnod pontio.

Y Dyraniad Asedau Strategol yw targed hirdymor y portffolio o fuddsoddiadau incwm sefydlog, gyda'r bwriad o helpu i gyflawni nodau'r strategaeth. Rhoddir at ei gilydd gan ddefnyddio data hanesyddol am y farchnad a thybiaethau wrth edrych i'r dyfodol er mwyn cael y pwysiadau dymunol.

***Nid yw amlygiad arian cyfred lleol EMD yn cael ei rag-fantoli yn y cyfanswm SAA hwn.**

Sylwadau ar y Gronfa Gyffredinol

Bu i'r Gronfa gofnodi enillion cadarnhaol yn yr ail chwarter.

Yn yr amgylchedd hwn, fe wobrwywyd cyfraddau a lleoliad credyd tra bod effeithiau arian cyfred wedi tynnu oddi ar hyn. Mewn cyfraddau, roedd dyraniadau i Drysorlysoedd yr UD a byndiau'r Almaen yn fuddiol. Mewn credyd corfforaethol, gwelwyd cyfraniad positif amlwg mewn amlygiad i arenillion uchel yr UD, yn enwedig meysydd ariannol a diwydiannol. Gwobrwywyd safle mewn credyd enillion uchel Ewropeaidd hefyd. Mewn dyledion marchnadoedd datblygol arian cyfred, bu gorbwysau i America Ladin yn hynod effeithiol; gwelwyd cyfraniadau pellach mewn dyraniadau i Ewrop a'r Dwyrain Canol. Mewn llefydd eraill, roedd amlygiad i fenthyciad banc yn effeithiol, yn enwedig materion blwyddyn. Mewn credyd 'securitised', roedd amlygiad i rwymedigaethau benthyciad cyfochrog yn fuddiol. Roedd dyraniadau i drosglwyddiadau risg credyd hefyd yn ddefnyddiol. Mewn arian cyfred, roedd dyraniadau i ddoler yr UD a sterling y DU yn niweidiol.

Cwblhawyd y broses o ychwanegu Aegon fel rheolwr yn y Gronfa yn y cyfnod. Nod ei strategaeth yw elwa o fynd ati i ddyrannu at y cyfleoedd gwerth gorau ar draws y farchnad 'securitized' Ewropeaidd heb fod yn gysylltiedig â buddsoddi, buddsoddi mewn rhwymedigaethau benthyciad cyfochrog ac ystod eang o sectorau diogelwch â chymorth asedau. Mae arenillion ac ansawdd cymharol uwch y strategaeth o'i gymharu ag opsiynau nad ydynt yn ymwneud â buddsoddi, yn ei gwneud yn ychwanegiad cymhellol. Ar y cyd â'r ychwanegiad hwn, tynnwyd rheolwr US Securitized Voya o'r Gronfa. Credwn fod yr amlygiad i'r farchnad Ewropeaidd a photensial o elw uwch yn gweddu'n well i'r portffolio dros amser.

Hefyd, cyflwynodd Russell Investments ddyraniad bach i Invesco drwy US CLO AAA ETF. Mae hyn yn buddsoddi mewn credyd wedi'i warantu o ansawdd uchel sy'n rhoi hwb i gynnyrch portffolio fel llawes arian parod gwell, gan roi hwb i arenillion y portffolio heb i'r proffil statws credyd ddirywio o gwbl.

Cronfa Strategaeth Bond Enillion Absoliwt:

Mae'r is-gronfa yn anelu at gyflawni cyfanswm enillion (y cyfuniad o incwm a thwf cyfalaf), sy'n cyfateb i'r **GBP SONIA + 2%** tri mis**,** dros unrhyw gyfnod o bum mlynedd, ar ôl i'r holl gostau a ffioedd gael eu cymryd.

	Ch2 2026	Blwyddyn	3 Blynedd	5 Mlynedd	Ers Cychwyn
Gros	1.9	5.2	6.8	4.9	4.6
Net	1.8	4.8	6.6	4.6	4.3
3 Mis GBP SONIA + 2%	1.5	6.1	6.8	5.6	5.1
Enillion dros ben (gros)	0.4	-0.9	0.0	-0.7	-0.5
Enillion dros ben (Net)	0.3	-1.3	-0.2	-1.0	-0.8

Dyddiad Cychwyn: COB 30 Medi 2020

Ffynhonnell: Northern Trust fel ar 30 Mehefin 2026

Mae'r dyddiad cychwyn yn seiliedig ar NAV cychwynnol ar gyfer yr is-gronfa. Gall y dyddiad cychwyn hwn (ac felly y perfformiad) fod yn wahanol i'r rheolw(y)r buddsoddi, sydd fel arfer yn cymryd drosodd ar ôl cyfnod pontio.

Sylwadau ar y Gronfa Gyffredinol

Bu i'r Gronfa gofnodi elw cadarnhaol yn yr ail chwarter.

O fewn yr amgylchedd hwn, cofnododd y pedwar rheolwr sylfaenol elw cadarnhaol. Fe wnaeth DNCA cyffredinol aml-sector elwa o leoliad amddiffynnol a ffafriaeth ar gyfer bondiau yn gysylltiedig â chwyddiant. Roedd amlygiad y Gronfa i 'convertibles' yn gadarnhaol gan eu bod yn perfformio yn unol â chredyd arenillion uchel. Yn y cyfamser, cyfrannodd strategaethau cyfradd llog yn bositif. Roedd yr amlygiad i warantau Ewropeaidd â chymorth asedau yn parhau i wobrwyo, ond yn dal i gofnodi enillion is na meysydd incwm sefydlog eraill.

Cronfa Credyd Sterling:

Mae disgwyl i'r is-gronfa berfformio'n well o **0.65%** yn uwch na meincnod yr is-gronfa net o ffioedd, dros y tymor hwy.

	Ch2 2026	Blwyddyn	3 Blynedd	5 Mlynedd	Ers Cychwyn
Gros	2.6	4.0	6.9	0.3	0.4
Net	2.5	3.9	6.8	0.2	0.3
Mynegai ICE Bank of America Merrill Lynch Euro-Sterling	2.6	4.2	6.4	-0.5	-0.4
Enillion dros ben (gros)	0.0	-0.2	0.5	0.8	0.8
Enillion dros ben (Net)	-0.1	-0.3	0.4	0.7	0.7

Dyddiad Cychwyn: COB 27 Gorffennaf 2020

Ffynhonnell: Northern Trust fel ar 30 Mehefin 2026

Meincnod: Mynegai ICE Bank of America Merrill Lynch Euro-Sterling.

Mae'r dyddiad cychwyn yn seiliedig ar NAV cychwynnol ar gyfer yr is-gronfa. Gall y dyddiad cychwyn hwn (ac felly y perfformiad) fod yn wahanol i'r rheolw(y)r buddsoddi, sydd fel arfer yn cymryd drosodd ar ôl cyfnod pontio.

Sylwadau ar y Gronfa Gyffredinol

Perfformiodd y portffolio yn unol â'r meincnod dros y chwarter.

Safle credyd oedd y prif gyfrannwr at berfformiad cymharol, tra bod '*duration positioning'* wedi tynnu oddi ar hynny. Ar lefel y sector, roedd dyraniadau trosbwysau i gyhoeddwyr Yswiriant a Banciau a Brocwyr yn ychwanegu gwerth. Ar lefel y cyhoeddwr, roedd amlygiadau trosbwysau i New York Life Insurance, Morgan Stanely and Northwestern Mutual ymysg y cyfranwyr cryfaf. I'r gwrthwyneb, roedd y dyraniad tanbwysau i Chyfleustodau yn tynnu oddi ar berfformiad. O safbwynt un enw, roedd absenoldeb amlygiad i Eversholt Rail Group a Verizon Communications yn pwyso ar enillion cymharol. Roedd y tanbwysau strwythurol i gyhoeddwyr quasi ac uwchgenedlaethol hefyd yn dal perfformiad yn ôl. O safbwynt hyd, roedd lleoliad anffafriol ar draws y gromlin arenillion sterling yn tynnu oddi wrth y perfformiad. Mae'r dyraniad dros bwysau i hyd Japan hefyd yn pwyso ar enillion wrth i Fanc Japan barhau â'i normaleiddio polisi, gan yrru arenillion bondiau llywodraeth Japan yn uwch. Cafodd y gwyntoedd blaen hyn eu gwrthbwyso'n rhannol gan gyfraniadau cadarnhaol o'r model meintiol.

IM Co PPC: Diweddariad ar Gynnydd

Medi 2026

Paratowyd gan Rob Lamb, Prif Swyddog Gweithredol.

Yn dilyn cyfnod o dri mis pwysig iawn i'r sefydliad, mae'r papur hwn yn crynhoi datblygiadau allweddol ers 1 Mehefin 2026, wedi'u trefnu o dan yr un tri maes a ddefnyddiwyd yn y diweddariad blaenorol i'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu: llywodraethu, pobl a gweithrediadau.

Llywodraethu

Mae'r strwythur llywodraethu yn gwahanu tair rôl wahanol: Bwrdd IM Co annibynnol sy'n gyfrifol am yr endid rheoleiddiedig, Bwrdd Cyfranddalwyr sy'n arfer materion a gedwir yn ôl ar ran yr wyth perchennog, a'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu sy'n parhau fel y corff goruchwylio cleientiaid ar y cyd, gan gydweithio'n agos â'r Pwyllgorau Cronfa Bensiwn unigol.

Mae'r FCA yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cwmni ddangos y gall weithredu'n annibynnol ar ei gyfranddalwyr – mae hyn wedi'i adeiladu yn y fframwaith ac wedi'i gytuno â'r holl bartïon. Gyda'r FCA yn cadarnhau ei awdurdodiad ffurfiol ar 1 Medi, mae'r strwythur hwn bellach yn weithredol:

- Mae cyfarwyddwyr y Bwrdd Trosiannol wedi ymddiswyddo, ac mae cyfarwyddwyr newydd wedi'u penodi, gyda'r holl ffeiliau priodol gyda Thŷ'r Cwmnïau wedi'u cwblhau
- Mae cyfalaf rheoleiddiol wedi'i alw a'i gadarnhau
- Mae cytundebau gwasanaethau Cyfranddalwyr a Chleientiaid wedi'u llofnodi a'u gweithredu

Mae'r Cytundeb Cyfranddalwyr yn gofyn am gynllun busnes pum mlynedd a chyllideb flynyddol a gymeradwyir gan fwyafrif uchel o'r cyfranddalwyr (75%) cyn Ebrill 2027. Mae'r polisi tâl yn fater neilltuedig ar wahân ar yr un trothwy.

Er mwyn bwrw ymlaen ar fyrder gyda'r uchod, mae IM Co PPC wedi datblygu map ffordd Llywodraethu, a gymeradwywyd gan y Bwrdd a rhannwyd gyda'r CBLl ym mis Gorffennaf. Wedi'i seilio ar ffrydiau gwaith unigol sy'n cwmpasu gweithgareddau gweithredol allweddol, mae'r map ffordd yn amlinellu'r pwyntiau lle bydd rhaid gwneud penderfyniadau a fydd yn mynd â datblygiad y cynllun ymlaen tuag at sicrhau cymeradwyaeth Cyfranddalwyr, gan ymgysylltu ac ymgynghori â hwy drwy'r amser.

Gan gymryd 'buddsoddiad lleol' fel enghraifft o weithgaredd gweithredol allweddol (a fydd yn ymddangos fel pennod ar wahân yn y cynllun 5 mlynedd terfynol), rydym yn mynd ati i ymgysylltu'n fanwl â'r ecosystem rhanddeiliaid – sy'n cynnwys Llywodraeth Leol, partneriaid datblygu economaidd, Llywodraeth Cymru a chyfryngwyr eraill. Bydd y gwaith hwn yn parhau trwy gydol Ch3 a Ch4 2026.

Pobl

Mae 16 aelod parhaol o staff a dau gontractwr bellach yn eu swyddi, ac mae dau arall wedi derbyn cynigion i ymuno â'r cwmni. Rydym yn falch o fod wedi gallu parhau i recriwtio yn seiliedig ar awydd i gyfuno cof sefydliadol a pherthnasoedd sy'n hanfodol i barhad gwasanaeth, tra'n tynnu ar

MAE CWMNI RHEOLI BUDDSODDIADAU PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU CYFYNGEDIG ("WPP") YN GWMNI PREIFAT CYFYNGEDIG TRWY GYFRANDDALIADAU, WEDI'I YMGORFFORI YNG NGHYMRU O DAN DDEDDF CWMNÏAU 2006 (CWMNI RHIF 16645479). SWYDDFA GOFRESTREDIG: CYNGOR SIR CAERFYRDDIN, NEUADD Y SIR, CAERFYRDDIN, SA31 1JP, Y DEYRNAS UNEDIG.

safbwyntiau newydd o gefndiroedd rheoleiddio buddsoddiadau, risg, cyllid, cyfathrebu, a gweithrediadau.

Mae'r gymysgedd yn fwriadol: mae arnom angen pobl sy'n deall y system rydym yn ei hetifeddu ac sydd ganddynt ddealltwriaeth reddfol o flaenoriaethau aelodau. Mae hefyd angen pobl sy'n dod â disgyblaethau'r amgylchedd rheoledig sydd o'n blaenau. Rydym yn dal i fod yn ymrwymedig i weithio'n ddoeth a gyda ffocws, gan dynnu ar y dalent orau sydd ar gael a'r ymrwymiad amlwg gan recriwtiaid newydd posibl i wasanaethu pwrpas Cymreig unigryw IM Co PPC.

O Fedi 1, rydym yn falch iawn o gadarnhau bod y penodiadau canlynol bellach yn y swydd:

- Pennaeth Gweithrediadau Buddsoddi
- Cyfarwyddwr Gweithrediadau
- Cyfarwyddwr Pobl

Mae cyfarfodydd cychwynnol y cwmni a diwrnodau tîm wedi caniatáu inni gysylltu fel pobl, i gytuno ar ein pwrpas a'n diwylliant cyffredin sy'n diffinio'r cwmni. Yn ystod mis Awst fe wnaethom ddefnyddio'r fforwm hwn i ddechrau trafod datblygu strategaeth. Tra bod hyn yn parhau (a bydd yn cynnwys ystyried cyflwyniad allanol y cwmni), rydym bellach yn mynd i'r afael â'n dymuniad i adeiladu cymhwysedd traws-swyddogaethol a dealltwriaeth ddofn o'r dirwedd CPLlL ehangach. Mae rhoi ein mandad yn ffurfiol yn gofyn i ni fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau dydd i ddydd, yn unigol a gyda'n gilydd, o ran cydymffurfio a chyfrifoldebau technegol ac ymddiriedol.

Mae'r tîm arweinyddiaeth wedi'i recriwtio'n llawn yn ôl yr amserlen, ac yn unol â gofynion rheoleiddio o dan Drefn Uwch Reolwyr yr FCA. Mae'r tîm prif swyddogion yn cynnwys y Prif Swyddog Gweithredol a'r Prif Swyddog Buddsoddi fel cyfarwyddwyr gweithredol, gyda chefnogaeth Cyfarwyddwr Cyllid, Cyfarwyddwr Risg, Pennaeth Staff ac yn ddiweddar, y Cyfarwyddwr Gweithrediadau a Chyfarwyddwr Pobl.

Mae Cadeirydd annibynnol a Chyfarwyddwyr Anweithredol, gan gynnwys dau Gyfarwyddwr Anweithredol Cyfranddalwyr a gynigiwyd i'w hystyried gan y cyfranddalwyr eu hunain, wedi cael eu recriwtio. Cafodd y Bwrdd Trosiannol ei ddiddymu'n ffurfiol ar 28 Gorffennaf 2026, a chyda hynny, ei ddisodli gan Fwrdd IM Co PPC . Mae anwytho a hyfforddiant ar gyfer pob aelod newydd o'r Bwrdd yn parhau. Daeth y Bwrdd at ei gilydd am y tro cyntaf ar ôl awdurdodiad yr FCA ar 2 Medi 2026, i drafod strategaeth y Cwmni.

Gweithrediadau

Cafodd y canllawiau rheoleiddiol sy'n sail i Ddeddf Cynllun Pensiynau 2026 eu deddfu ar 30 Mehefin 2026, gan nodi deddfiad deddfwriaethol swyddogol pecyn diwygio pensiwn 'Fit for the Future' y Llywodraeth. Gellid dehongli hyn fel 'diwedd y dechrau'.

Fel y nodir uchod, wedi i'r FCA gadarnhau ei fod yn awdurdodi IM Co PPC yn ffurfiol ym mis Gorffennaf 2026, dechreuwyd ar weithredu cytundebau allweddol a gweithredu cyfres o brosesau gweinyddol hanfodol fel bod y busnes yn barod i weithredu'n llawn o 1 Medi 2026. Y cam olaf oedd gweithredu'r cytundeb gwasanaeth gweithredu, a lofnodwyd ar 27 Awst, 2026.

MAE CWMNI RHEOLI BUDDSODDIADAU PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU CYFYNGEDIG ("WPP") YN GWMNI PREIFAT CYFYNGEDIG TRWY GYFRANDDALIADAU, WEDI'I YMGORFFORI YNG NGHYMRU O DAN DDEDDF CWMNÏAU 2006 (CWMNI RHIF 16645479). SWYDDFA GOFRESTREDIG: CYNGOR SIR CAERFYRDDIN, NEUADD Y SIR, CAERFYRDDIN, SA31 1JP, Y DEYRNAS UNEDIG.

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnyddio'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol i baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i gyflawni, nid wyf wedi adnabod unrhyw ansicrwydd perthnasol mewn perthynas â digwyddiadau neu amodau a all, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r gronfa bensiwn i barhau i fabwysiadu'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Caiff fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau'r swyddog cyllid cyfrifol mewn perthynas â busnes gweithredol eu disgrifio yn yr adrannau perthnasol o'r adroddiad hwn.

Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol heblaw am y datganiadau ariannol
a'm hadroddiad i fel archwilydd ar y rhain. Y Swyddog Cyllid Cyfrifol sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall

yn yr Adroddiad Blynyddol. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall a, heblaw i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar yr wybodaeth arall honno. Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn berthnasol anghyson â'r datganiadau ariannol neu wybodaeth a gafwyd wrth gyflawni'r archwiliad, neu'n ymddangos fel arall fel pe bai wedi cael ei cham-ddatgan yn berthnasol. Os wyf yn canfod anghysonderau perthnasol o'r fath neu wybodaeth berthnasol o'r fath sy'n ymddangos fel pe bai wedi cael ei
cham-ddatgan, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn achosi camddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i wneud, os wyf yn dod i'r casgliad bod yr wybodaeth arall hon wedi'i cham ddatgan yn berthnasol, mae'n ofynnol i mi nodi'r ffaith honno.

Nid oes unrhyw beth gennyf i'w nodi yn hyn o beth.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

• mae'r wybodaeth a geir yn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013.

Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth am Cronfa Bensiwn Gwynedd a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Blynyddol. Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:
• nid wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad;
• ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol, neu ni chafwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad o ganghennau nad ymwelodd fy nhîm â hwy; neu
• nid yw'r datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu.

Cyfrifoldebau'r swyddog cyllid cyfrifol am y datganiadau ariannol

Fel a esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau am y datganiadau ariannol, y swyddog cyllid cyfrifol sy'n gyfrifol am:
• baratoi'r datganiad cyfrifon, sy'n rhoi darlun gwir a theg;
• cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
• pa bynnag reolaethau mewnol sy'n angenrheidiol ym marn y swyddog cyllid cyfrifol i allu paratoi datganiadau ariannol heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall; ac
• asesu gallu Cronfa Bensiwn Gwynedd i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â'r busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni bai bod y swyddog cyllid cyfrifol yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan Cronfa Bensiwn Gwynedd yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau Ariannol

Fy nghyfrifoldeb yw archwilio'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhai heb unrhyw gamddatganiad perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n

gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU wastad yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll, yn golygu achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rwy'n dylunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a nodir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:
• holi'r rheolwyr, Pennaeth Archwilio Mewnol a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennaeth ategol mewn perthynas â pholisïau a gweithdrefnau Cronfa Bensiwn Gwynedd sy'n ymwneud ag:
  ▪ adnabod, gwerthuso a chydymffurfio â deddfau a rheoliadau a pha un a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
  ▪ canfod ac ymateb i'r risgiau o dwyll a pha un a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig; a hefyd
  ▪ y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau.
• ystyried fel tîm archwilio sut a ble allai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, nodais y potensial ar gyfer twyll wrth i reolwyr ddiystyru rheolaethau;
• cael dealltwriaeth am y fframwaith awdurdod sydd gan Cronfa Bensiwn Gwynedd, yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn gweithredu oddi mewn iddynt, gan ganolbwyntio ar y deddfau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Cronfa Bensiwn Gwynedd; a
• chael dealltwriaeth am berthnasoedd partïon cysylltiedig.

Yn ychwanegol at yr uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a ganfuwyd yn cynnwys y canlynol:
• adolygu'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol a phrofi yn erbyn dogfennaeth ategol i asesu cydymffurfiaeth â deddfau a rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
• holi'r rheolwyr, y Pwyllgor Pensiynau ac ymgynghorwyr cyfreithiol ynghylch ymgyfreithiad a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
• darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r awdurdod gweinyddu;
• wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy wrthwneud rheolaethau gan reolwyr, profi priodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth lunio amcangyfrifon cyfrifyddu'n rhoi arwydd o duedd bosibl; a
• gwerthuso'r rhesymeg fusnes dros unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs arferol busnes.

Fe wnes i hefyd gyfleu deddfau a rheoliadau dynodedig perthnasol a risgiau posibl o dwyll i holl aelodau'r tîm archwilio ac aros yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau trwy gydol yr archwiliad.

Effeithir ar y graddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll, gan yr anhawster cynhenid o ran canfod afreolaidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Cronfa Bensiwn Gwynedd, a natur, amseriad a hyd a lled y gweithdrefnau archwilio a gyflawnwyd.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilio.

Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd

Rwy'n cyfathrebu gyda'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymhlith materion eraill, cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio arwyddocaol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol yr wyf yn eu hadnabod yn ystod fy archwiliad. Tystysgrif cwblhau'r archwiliad Yr wyf yn tystio fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Catherine Mealing-Jones
Archwilydd Cyffredinol Cymru
25 Tachwedd 2026

1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd, CF10 4BZ

Archwilio Cymru
Audit Wales

Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Cyfrifon – Cronfa Bensiwn Gwynedd

Blwyddyn archwilio: 2025-26

Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2026

Cyfeirnod y ddogfen: 5133A2026



Cynnwys

Cynnwys	2
Cyflwyniad	4
Cipolwg ar eich archwiliad	5
Perthnasedd	6
Canfyddiadau Archwilio	7
Tîm archwilio a chydymffurfio moesegol	9
Atodiad 1 – Risgiau archwilio a'r canlyniadau	10
Atodiad 2 – Adroddiad archwilio arfaethedig	14
Atodiad 3 – Llythyr sylwadau	19
Ansawdd archwilio	22
Eich cefnogi chi	23

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol, Swyddfa Archwilio Cymru na staff Swyddfa Archwilio Cymru'n derbyn unrhyw atebolrwydd mewn perthynas ag unrhyw ddibyniaeth ar y ddogfen hon nac unrhyw ddefnydd arall ohoni gan unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw ddefnydd gan unrhyw drydydd parti.

I gael rhagor o wybodaeth, neu os oes arnoch angen unrhyw un neu rai o'n cyhoeddiadau mewn fformat a/neu iaith arall, cysylltwch â ni dros y ffôn ar 029 2032 0500, neu drwy anfon neges e-bost i post@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Cyflwyniad



Catherine Mealing-Jones

Archwilydd Cyffredinol Cymru

Fel Archwilydd Cyffredinol Cymru sydd newydd ei benodi, mae'n bleser gennyf rannu fy Adroddiad Archwilio Cyfrifon. Mae'r Adroddiad yn crynhoi prif ganfyddiadau fy archwiliad o'ch adroddiad blynyddol a chyfrifon ar gyfer 2025-26. Mae fy nhîm eisoes wedi trafod y canfyddiadau hyn gyda Rheolwr Buddsoddi.

Mae fy nhîm wedi cwblhau y gwaith archwilio i raddau helaeth yn unol a nodwyd yn fy Nghynllun Archwilio dyddiedig Gorffennaf 2026, yn amodol ar gwblhau camau olaf y gweithdrefnau archwilio.

Ers fy Nghynllun Archwilio, rwyf wedi diweddaru perthnasedd i adlewyrchu cyfrifon 2025-26. Rwyf hefyd wedi adnabod un risg archwilio newydd y mae angen ei ddwyn i'ch sylw. Caiff hon ynghyd â'm hymateb i risgiau archwilio a adnabuwyd yn flaenorol ei nodi yn **Atodiad 1**.

Mae'n ofynnol i mi ddarparu barn pa un a yw'r cyfrifon wedi cael eu paratoi'n briodol, a pha un a ydynt yn rhoi darlun gwir a theg, ym mhob agwedd berthnasol. Caiff fy marn archwilio arfaethedig a'r sail drosti ei hamlinellu ar dudalen 14.

Cyfrifoldeb y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, h.y. y Pwyllgor Pensiynau yw mynd i'r afael ag unrhyw faterion a godwyd yn fy adroddiad a darparu Llythyr Sylwadau ar fy nghyfer.

Hoffwn estyn fy niolchgarwch i swyddogion a staff Cronfa Bensiwn Gwynedd (y Gronfa Bensiwn) am eu cydweithrediad trwy gydol y broses archwilio sydd wedi bod yn amhrisiadwy i allu cwblhau'r archwiliad hwn yn effeithiol.

Cipolwg ar eich archwiliad



Rydym yn bwriadu cyhoeddi **barn ddiamod** ar y cyfrifon.

Gweler **Atodiad 2**



Nid oes **materion arwyddocaol eraill** i'w nodi.

Gweler y **Canfyddiadau archwilio**



Nid oes unrhyw **gamddatganiadau heb eu cywiro**.

Gweler y **Canfyddiadau archwilio**



Rydym yn anelu at ardystio eich cyfrifon ar **25 Tachwedd 2026**, sydd cyn y terfyn amser sef **1 Rhagfyr 2026**.

Perthnasedd

Rwy'n defnyddio barn proffesiynol i bennu trothwy perthnasedd i adnabod a chywiro camddatganiadau a allai effeithio ar benderfyniadau defnyddwyr, gan ystyried gwallau ariannol a gofynion datgelu yn ôl y fframwaith cyfrifyddu a'r cyfreithiau perthnasol. Mae fy nhîm yn diweddaru perthnasedd trwy gydol yr archwiliad ac yn yr adroddiad hwn rwy'n cynnwys materion sy'n mynd y tu hwnt i'm trothwy adrodd, a nodir isod.

Perthnasedd	Trothwy adrodd (dibwys)
Pennwyd lefel perthnasedd o 1% o asedau gros yn seiliedig ar ddatganiadau ariannol drafft 2025-26.	Pennwyd lefel perthnasedd o 5%.
£36.024 miliwn	**£1.801 miliwn**

Ceir rhai meysydd o fewn y cyfrifon a allai fod yn bwysicach i ddefnyddiwr y cyfrifon. Rydym yn cadarnhau lefel perthnasedd is ar gyfer:

Datgeliadau partïon cysylltiedig – Personél rheoli allweddol
£1,000

Canfyddiadau Archwilio

Camddatganiadau

Mae camddatganiad yn codi lle nad yw gwybodaeth yn y cyfrifon yn unol â safonau cyfrifeg.

Camddatganiadau nas cywirwyd

Nid oedd unrhyw gamddatganiadau heb eu cywiro.

Camddatganiadau a gywirwyd

Yn ystod ein harchwiliad, canfuom rhai gamddatganiadau sydd wedi cael eu cywiro gan y rheolwyr, ond sydd, yn ein barn ni, yn haeddu cael eu dwyn i'ch sylw.

Gwerth y cywiriad	Maes yn y cyfrifon	Eglurhad
Datgeliad yn unig	**Nodyn 1 Disgrifiad o'r Gronfa** Canfuom fod nifer y pensiynwyr a ddatgelwyd yn Nodyn 1 wedi'i orddatgan o 21. Dangosodd ein gwaith hefyd fod 5 aelod wedi'u dosbarthu'n anghywir fel aelodau gweithredol o'r cynllun yn hytrach nag fel 'Ymadawyr heb benderfynu'.	Er mwyn sicrhau cywirdeb y datganiadau ariannol.

Roedd yna hefyd nifer fach o welliannau mân o ganlyniadau i'n gwaith.

Materion arwyddocaol eraill

Mae'r Safon Ryngwladol ar Gyfrifyddu 260 yn ei gwneud hi'n ofynnol i ni gyfathrebu gyda'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu. Rhaid i ni roi gwybod i chi am ganfyddiadau arwyddocaol o'r archwiliad a materion eraill os ydynt yn arwyddocaol i'ch goruchwyliaeth chi ar broses adrodd ariannol y Gronfa Bensiwn.

Nid chanfuwyd unrhyw faterion o'r fath yn ystod yr archwiliad.

Barn archwilio arfaethedig

Barn archwilio

Rydym yn bwriadu cyhoeddi barn archwilio ddiamod ar gyfrifon eleni unwaith y byddwch chi wedi darparu Llythyr Sylwadau ar ein cyfer (gweler isod).

Caiff ein hadroddiad archwilio arfaethedig ei nodi yn **Atodiad 2**.

Llythyr sylwadau

Llythyr ffurfiol yw Llythyr Sylwadau ac ynddo rydych yn cadarnhau wrthym ni bod yr wybodaeth a ddarparwyd ar ein cyfer yn ystod yr archwiliad yn gywir ac yn gyflawn. Mae peth o'r wybodaeth hon yn ofynnol yn ôl safonau archwilio; gall gwybodaeth arall ymwneud yn benodol â'ch archwiliad chi.

Mae'r llythyr yr ydym yn gofyn i chi ei lofnodi wedi'i gynnwys yn **Atodiad 3,** mae ei gynnwys yn gyson â'n cais safonol am sylwadau.

Tîm archwilio a chydymffurfio moesegol

Mae prif aelodau fy nhîm a wnaeth y gwaith archwilio, ynghyd â'u manylion cyswllt, eu crynhoi yn **Arddangosyn 1**.

Arddangosyn 1: fy nhîm archwilio lleol

Arweinydd Ymgysylltu	Matthew Edwards matthew.edwards@archwilio.cymru
Rheolwr Archwilio	Yvonne Thomas yvonne.thomas@archwilio.cymru
Uwch Archwilydd	Osian Roberts osian.roberts@archwilio.cymru

Cydymffurfio â safonau moesegol

Rydym yn cadarnhau:

- ein bod wedi cydymffurfio â'r safonau moesegol y mae'n ofynnol i ni eu dilyn wrth wneud ein gwaith;
- ein bod wedi aros yn annibynnol oddi arnoch chi;
- nad yw ein gwrthrychedd wedi cael ei beryglu;
- nad oes gennym unrhyw berthnasoedd a allai danseilio ein hannibyniaeth neu ein gwrthrychedd; a
- chafodd y mesurau diogelwch a amlinellwyd yn y Cynllun Archwilio ynghylch perthnasau a ffrindiau'r Rheolwr Archwilio a'r Uwch Archwilydd yn cyfrannu at neu'n derbyn pensiwn o'r Gronfa Bensiwn eu gweithredu'n briodol i reoli unrhyw wrthdaro posibl.

Atodiad 1 – Risgiau archwilio a'r canlyniadau

Ers cyhoeddi fy Nghynllun Archwilio ym mis Gorffennaf, mae fy nhîm wedi nodi risg ychwanegol o gamddatganiad perthnasol y dylid ei ddwyn i'ch sylw fel a restrir isod.

Arddangosyn 1: risgiau archwilio a adnabuwyd yn dilyn cyhoeddi fy Nghynllun Archwilio

Risg archwilio	Gwaith a wnaed	Canlyniad
Nodyn 14a – Pryniannau a Gwerthiannau Buddsoddiadau Yn ystod 2025-26, cynyddodd pryniannau a gwerthiannau buddsoddiadau yn sylweddol oherwydd £2,408 miliwn o drosiadau dosbarth cyfranddaliadau cronfeydd Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) a £141 miliwn o fuddsoddiadau eiddo cyfun yn cael eu trosglwyddo i Farchnadoedd Preifat PPC. Roedd risg bod y trafodion hyn wedi'u dosbarthu'n anghywir fel pryniannau a gwerthiannau buddsoddiadau yn y datganiadau ariannol.	Fe wnaeth y tîm archwilio: • brofi'r pryniannau a'r gwerthiannau buddsoddiadau, gan gynnwys trosiadau cronfeydd PPC a throsglwyddo'r buddsoddiadau eiddo cyfun; ac • asesu natur a sylwedd y trafodion a chadarnhau bod eu dosbarthiad yn unol â'r gofynion cyfrifyddu perthnasol.	Ni nododd fy ngwaith archwilio unrhyw wallau yn nosbarthiad y trafodion hyn. Daethom i'r casgliad bod eu trin fel pryniannau a gwerthiannau buddsoddiadau yn briodol. Fodd bynnag, o ystyried gwerth sylweddol y trafodion, gwnaethom ofyn am ddatgeliad ychwanegol yn Nodyn 14b i egluro natur y £2,408 miliwn o drosiadau cronfeydd PPC a'r £141 miliwn o drosglwyddiad buddsoddiadau eiddo cyfun.

Mae **Arddangosyn 2** yn rhestru'r risgiau archwilio a gynhwyswyd yn fy Nghynllun Archwilio ac yn nodi sut yr aethpwyd i'r afael â hwy fel rhan o'r archwiliad.

Arddangosyn 2: risgiau archwilio a adroddwyd yn flaenorol, gwaith a wnaed a'r canlyniad

Risg archwilio	Gwaith a wnaed	Canlyniad
Risg o wrthwneud gan reolwyr Mae'r risg y gallai rheolwyr wrthwneud rheolaethau'n bresennol ym mhob endid. O ystyried y ffordd anrhagweladwy y gallai gwrthwneud o'r fath ddigwydd, tybir bod hon yn risg arwyddocaol [ISA 240.32-33].	Fe wnaeth y tîm archwilio: • brofi priodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol; • adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu ar gyfer gwyrdueddiadau; a • gwerthuso'r sail resymegol ar gyfer unrhyw drafodiadau arwyddocaol y tu allan i gwrs arferol busnes.	Ni nododd fy ngwaith unrhyw achosion o wrthwneud rheolaethau gan reolwyr.
Prisiadau asedau buddsoddi Mae'r balans asedau buddsoddi yn cynnwys £3,533 miliwn o fuddsoddiadau (incwm sefydlog, ecwiti, eiddo, credyd preifat, ecwiti preifat ac isadeiledd) sy'n gymhleth i'w prisio ac mae goddrychedd yn eu prisiad. Felly, mae risg bod y balansau buddsoddi wedi'u cam-ddatgan yn berthnasol.	Fe wnaeth y tîm archwilio: • gytuno ar y prisiadau yn y ddogfennaeth ategol briodol; • adolygu adroddiadau 'sicrwydd rheolaeth' gan reolwyr perthnasol y gronfa; a • gwerthuso'r risg o gamddatganiad perthnasol gweddilliol a'r angen am weithdrefnau archwilio ychwanegol.	Ni nododd fy ngwaith archwilio unrhyw faterion gyda phrisiad Asedau Buddsoddi.

Diwygio'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Yn dilyn yr ymgynghoriad 'Addas ar gyfer y Dyfodol' ym mis Tachwedd 2024, mae cwmni rheoli buddsoddiadau newydd a reoleiddir gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) wrthi'n cael ei ddatblygu.

Trwy gydol blwyddyn ariannol 2025-26 mae gwaith wedi bod yn cael ei wneud i sefydlu'r cwmni, ac o dan Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Cydgyfuno, Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2026 bydd yr holl asedau'n cael eu rheoli gan y gronfa ar ôl 2025-26.

Golyga hyn, er y bydd asedau a fydd yn dal i gael eu rheoli'n lleol ar 31 Mawrth 2026, y bydd yn ofynnol gwneud datgeliadau eglur yn natganiadau ariannol y gronfa i ddisgrifio'r cynnydd yn ystod blwyddyn ariannol 2025-26 a chynlluniau ar gyfer y dyfodol.

Fe wnaeth y tîm archwilio:

- barhau i drafod a monitro datblygiadau o ran sefydlu'r cwmni rheoli buddsoddiadau; ac
- adolygu datgeliadau a wnaed yn y datganiadau ariannol i sicrhau eu bod yn rhoi disgrifiad llawn a chywir o'r cynnydd a chynlluniau ar gyfer y dyfodol.

Nododd fy ngwaith archwilio fod angen diweddariad bach i'r datgeliad yn Nodyn 6 i adlewyrchu'r newid yn statws FCA Cwmni Rheoli Buddsoddiadau PPC rhwng y cyfrifon drafft a'r cyfrifon terfynol.

Datgeliadau partïon cysylltiedig

Rhaid i'r datganiadau ariannol ddatgelu unrhyw berthnasoedd partïon cysylltiedig ynghyd â'r trafodion a'r balansau rhwng Cronfa Bensiwn Gwynedd a'r corff/parti arall.

Mae gan Cronfa Bensiwn Gwynedd lawer o berthnasoedd y gellid eu hystyried yn bartïon cysylltiedig. Mae llawer yn adnabyddus er enghraifft, cyflogwyr sy'n cymryd rhan fel cyfranwyr.

Fodd bynnag, lle mae perthnasoedd partïon cysylltiedig yn codi trwy berthnasoedd swyddog neu aelod unigol, mae'n debygol y bydd llai o dryloywder o ran y cysylltiadau hyn. Mae'r trafodion hyn o ddiddordeb mawr ac yn cael eu hystyried yn berthnasol o ran natur.

Mae perygl o gamddatganiad perthnasol oherwydd datgeliadau anghyflawn neu anghywir, hyd yn oed pan fo'r rhain o werth cymharol isel.

Fe wnaeth y tîm archwilio:

- adolygu proses Cronfa Bensiwn Gwynedd ar gyfer nodi perthnasoedd partïon cysylltiedig a thrafodion a balansau cysylltiedig;
- ymgymryd â gweithdrefnau i gadarnhau cyflawnrwydd perthnasoedd partïon cysylltiedig; ac
- sicrhau bod datgeliadau yn gyflawn, yn gywir, yn gyson â thystiolaeth ac yn unol â gofynion cyfrifydd.

Ni nododd fy ngwaith archwilio unrhyw faterion gyda'r datgeliadau partïon cysylltiedig.

Atodiad 2 – Adroddiad archwilio arfaethedig

Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i aelodau Cyngor Gwynedd fel y corff gweinyddu ar gyfer Cronfa Bensiwn Gwynedd

Barn ar y datganiadau ariannol

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol Cronfa Bensiwn Gwynedd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026 dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau ariannol Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cynnwys cyfrif y gronfa, y datganiad asedau net a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu perthnasedd arwyddocaol.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2025-26.

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o drafodion ariannol y gronfa bensiwn yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026, a swm a threfniadaeth ei hasedau a'i rhwymedigaethau, ar y dyddiad hwnnw; a
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â gofynion deddfwriaethol a'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2025-26.

Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (Y DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio datganiadau ariannol a rheoleidd-dra cyrff y sector cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Caiff fy nghyfrifoldebau dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yn yr adran o'm hadroddiad sy'n nodi cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol.

Mae fy staff a minnau'n annibynnol o'r gronfa bensiwn yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi

cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnyddio'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol i baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i gyflawni, nid wyf wedi adnabod unrhyw ansicrwydd perthnasol mewn perthynas â digwyddiadau neu amodau a all, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r gronfa bensiwn i barhau i fabwysiadu'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Caiff fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau'r swyddog cyllid cyfrifol mewn perthynas â busnes gweithredol eu disgrifio yn yr adrannau perthnasol o'r adroddiad hwn.

Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol heblaw am y datganiadau ariannol a'm hadroddiad i fel archwilydd ar y rhain. Y Swyddog Cyllid Cyfrifol sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall yn yr Adroddiad Blynyddol. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall a, heblaw i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar yr wybodaeth arall honno. Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn berthnasol anghyson â'r datganiadau ariannol neu wybodaeth a gafwyd wrth gyflawni'r archwiliad, neu'n ymddangos fel arall fel pe bai wedi cael ei cham-ddatgan yn berthnasol. Os wyf yn canfod anghysonderau perthnasol o'r fath neu wybodaeth berthnasol o'r fath sy'n ymddangos fel pe bai wedi cael ei cham-ddatgan, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn achosi camddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i wneud, os wyf yn dod i'r casgliad bod yr wybodaeth arall hon wedi'i cham-ddatgan yn berthnasol, mae'n ofynnol i mi nodi'r ffaith honno.

Nid oes unrhyw beth gennyf i'w nodi yn hyn o beth.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a geir yn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013.

Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth am Cronfa Bensiwn Gwynedd a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Blynyddol.
Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- nid wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad;
- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol, neu ni chafwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad o ganghennau nad ymwelodd fy nhîm â hwy; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu.

Cyfrifoldebau'r swyddog cyllid cyfrifol am y datganiadau ariannol

Fel a esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau am y datganiadau ariannol, y swyddog cyllid cyfrifol sy'n gyfrifol am:

- baratoi'r datganiad cyfrifon, sy'n rhoi darlun gwir a theg;
- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- pa bynnag reolaethau mewnol sy'n angenrheidiol ym marn y swyddog cyllid cyfrifol i allu paratoi datganiadau ariannol heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall; ac
- asesu gallu Cronfa Bensiwn Gwynedd i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â'r busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni bai bod y swyddog cyllid cyfrifol yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan Cronfa Bensiwn Gwynedd yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb yw archwilio'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhai heb unrhyw gamddatganiad perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n

cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU wastad yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll, yn golygu achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rwy'n dylunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a nodir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- holi'r rheolwyr, Pennaeth Archwilio Mewnol a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennaeth ategol mewn perthynas â pholisïau a gweithdrefnau Cronfa Bensiwn Gwynedd sy'n ymwneud ag:
  - adnabod, gwerthuso a chydymffurfio â deddfau a rheoliadau a pha un a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
  - canfod ac ymateb i'r risgiau o dwyll a pha un a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig; a hefyd
  - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau.
- ystyried fel tîm archwilio sut a ble allai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, nodais y potensial ar gyfer twyll wrth i reolwyr ddiystyru rheolaethau;
- cael dealltwriaeth am y fframwaith awdurdod sydd gan Cronfa Bensiwn Gwynedd, yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn gweithredu oddi mewn iddynt, gan ganolbwyntio ar y deddfau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Cronfa Bensiwn Gwynedd; a
- chael dealltwriaeth am berthnasoedd partïon cysylltiedig.

Yn ychwanegol at yr uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a ganfuwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol a phrofi yn erbyn dogfennaeth ategol i asesu cydymffurfiaeth â deddfau a rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;

- holi'r rheolwyr, y Pwyllgor Pensiynau ac ymgynghorwyr cyfreithiol ynghylch ymgyfreithiad a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r awdurdod gweinyddu;
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy wrthwneud rheolaethau gan reolwyr, profi priodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth lunio amcangyfrifon cyfrifyddu'n rhoi arwydd o duedd bosibl; a
- gwerthuso'r rhesymeg fusnes dros unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs arferol busnes.

Fe wnes i hefyd gyfleu deddfau a rheoliadau dynodedig perthnasol a risgiau posibl o dwyll i holl aelodau'r tîm archwilio ac aros yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau trwy gydol yr archwiliad.

Effeithir ar y graddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll, gan yr anhawster cynhenid o ran canfod afreolaidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Cronfa Bensiwn Gwynedd, a natur, amseriad a hyd a lled y gweithdrefnau archwilio a gyflawnwyd.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilio.

Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd

Rwy'n cyfathrebu gyda'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymhlith materion eraill, cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio arwyddocaol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol yr wyf yn eu hadnabod yn ystod fy archwiliad.

Tystysgrif cwblhau'r archwiliad

Yr wyf yn tystio fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Catherine Mealing-Jones
Archwilydd Cyffredinol Cymru
25 Tachwedd 2026

1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd, CF10 4BZ

Atodiad 3 – Llythyr sylwadau

Llythyr Sylwadau Terfynol

Cronfa Bensiwn Gwynedd

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas
Caerdydd
CF10 4BZ

23 Tachwedd 2026

Sylwadau ynghylch datganiadau ariannol 2025-26

Darperir y llythyr hwn mewn cysylltiad â'ch archwiliad o ddatganiadau ariannol Cronfa Bensiwn Gwynedd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026 at ddiben mynegi barn ar eu gwirionedd a'u tegwch a'u paratoi'n briodol.

Yr ydym ni'n cadarnhau hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred ar ôl gwneud yr ymholiadau fel yr ydym yn eu hystyried yn ddigonol, y gallwn gyflwyno'r sylwadau canlynol i chi.

Sylwadau'r rheolwyr

Cyfrifoldebau
Yr ydym ni wedi cyflawni ein cyfrifoldebau am:

- baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â gofynion deddfwriaethol a Chod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol 2025-26; yn arbennig mae'r datganiadau ariannol yn rhoi golwg gywir a theg yn unol â hwy; a
- dylunio, gweithredu, cynnal ac adolygu rheolaeth fewnol i atal a chanfod twyll a gwallau.

Gwybodaeth a ddarparwyd

Rydym wedi darparu'r canlynol ar eich cyfer:

- mynediad llawn at:

  - yr holl wybodaeth yr ydym yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i baratoi'r datganiadau ariannol megis llyfrau cyfrifon a dogfennaeth ategol, cofnodion cyfarfodydd a materion eraill;
  - gwybodaeth ychwanegol yr ydych chi wedi gofyn amdani gennym ni at ddiben yr archwiliad; a
  - mynediad digyfyngiad at aelodau o staff y penderfynoch chi fod angen cael tystiolaeth archwilio ganddynt;
- canlyniadau ein hasesiad ni o'r risg y gallai'r datganiadau ariannol fod wedi'u cam-ddatgan yn berthnasol o ganlyniad i dwyll;
- ein gwybodaeth ni am dwyll gwirioneddol neu dwyll tybiedig yr ydym ni'n ymwybodol ohono ac sy'n effeithio ar Cyngor Gwynedd ac sy'n cynnwys:
  - rheolwyr;
  - cyflogeion sydd â rolau arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol; neu
  - eraill lle gallai'r twyll gael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol;
- ein gwybodaeth ni am unrhyw honiadau o dwyll gwirioneddol, neu dwyll tybiedig, sy'n effeithio ar y datganiadau ariannol a gyflëwyd gan weithwyr, cyn-weithwyr, rheoleiddwyr neu eraill;
- ein gwybodaeth ni am bob achos hysbys o ddiffyg cydymffurfio gwirioneddol neu ddiffyg cydymffurfio tybiedig â deddfau a rheoliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol; a
- gwybodaeth am bwy yw'r holl bartïon cysylltiedig a'r holl berthnasoedd a thrafodion partïon cysylltiedig yr ydym yn ymwybodol ohonynt.

Sylwadau am y datganiadau ariannol

Mae'r holl drafodion, asedau a rhwymedigaethau wedi cael eu cofnodi yn y cofnodion cyfrifyddu ac fe'u hadlewyrchir yn y datganiadau ariannol.

Mae'r dulliau, y data a'r tybiaethau arwyddocaol a ddefnyddiwyd i lunio amcangyfrifon cyfrifyddu, a'u datgeliadau cysylltiedig, yn briodol i gyflawni cydnabyddiaeth, mesuriad neu ddatgeliad sy'n rhesymol yng nghyd-destun y fframwaith adrodd ariannol perthnasol.

Rhoddwyd cyfrif priodol am berthnasoedd a thrafodion partïon cysylltiedig ac maent wedi cael eu datgelu'n briodol.

Lle cafwyd digwyddiadau ar ôl y dyddiad adrodd yr oedd yn ofynnol gwneud addasiad ar eu cyfer neu eu datgelu, mae'r holl addasiadau a datgeliadau hyn wedi cael eu gwneud.

Mae pob ymgyfreithiad a hawliad gwirioneddol neu bosibl hysbys y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol wedi cael eu datgelu wrth yr archwilydd a rhoddwyd cyfrif amdanynt ac maent wedi cael eu datgelu yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol.

Mae'r datganiadau ariannol yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, gan gynnwys hepgoriadau. Nid oes unrhyw gamddatganiadau heb eu cywiro.

Sylwadau gan y Pwyllgor Pensiynau

Rydym yn cydnabod bod y sylwadau a wnaed gan y rheolwyr, uchod, wedi cael eu trafod gyda ni.

Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb am baratoi datganiadau ariannol cywir a theg yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol. Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan y Pwyllgor Pensiynau ar 23 Tachwedd 2026.

Yr ydym yn cadarnhau ein bod wedi cymryd pob cam y dylem fod wedi'i gymryd er mwyn ein gwneud ein hunain yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac er mwyn cadarnhau ei bod wedi cael ei chyfleu i chi. Rydym yn cadarnhau, hyd y gwyddom, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad ydych chi'n ymwybodol ohoni.

Llofnodwyd gan:	Llofnodwyd gan:
Dewi Aeron Morgan	Cynghorydd Elin Hywel
Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd	Cadeirydd y Pwyllgor Pensiynau
23 Tachwedd 2026	23 Tachwedd 2026

Ansawdd archwilio

Mae ein hymrwymiad i ansawdd archwilio yn Archwilio Cymru'n un llwyr. Rydym ni'n credu bod a wnelo ansawdd archwilio â chael pethau'n iawn y tro cyntaf.

Rydym yn defnyddio model tair llinell sicrwydd i ddangos sut yr ydym yn cyflawni hyn. Rydym wedi sefydlu Pwyllgor Ansawdd Archwilio i gydlynu a goruchwylio'r trefniadau hynny. Creffir yn annibynnol ar ein gwaith gan Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr ac mae Cadeirydd ein Bwrdd yn gweithredu fel dolen gyswllt i'n Bwrdd ar ansawdd archwilio. I gael rhagor o wybodaeth gweler ein Hadroddiad Ansawdd Archwilio diweddaraf.



Ein Pobl

- Dewis y tîm cywir
- Defnyddio arbenigwyr
- - Goruchwyliaeth ac adolygu



Trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd archwilio
Dewis y tîm cywir

- Platfform archwilio
- Moeseg
- Canllawiau
- Diwylliant
- Dysgu a datblygu
- Arweinyddiaeth
- Cymorth technegol



Sicrwydd annibynnol

- Adolygiadau Ansawdd Allanol
- Adolygiadau â thema
- Adolygiadau oer
- Dadansoddiad o wraidd y broblem
- Adolygiad gan gymheiriaid
- Pwyllgor Ansawdd Archwilio
- Monitro allanol

Eich cefnogi chi

Mae gan Archwilio Cymru ystod o adnoddau i roi cymorth i graffu ar gyrff cyhoeddus Cymru, ac i'w cynorthwyo i barhau i wella'r gwasanaethau y maent yn eu darparu i bobl Cymru.

Ewch at ein gwefan i ganfod:



Ein cyhoeddiadau sy'n cwmpasu ein gwaith archwilio mewn cyrff cyhoeddus.



Gwybodaeth am ein gwaith sydd ar ddod a'n blaenraglen waith ar gyfer archwilio perfformiad.



Offer data i'ch helpu i gael dealltwriaeth well am dueddiadau mewn gwariant cyhoeddus.



Manylion ein gwaith a'n digwyddiadau Arfer Da gan gynnwys rhannu arfer a mewnwelediadau sy'n dod i'r amlwg o'n gwaith archwilio.



Ein cylchlythyr sy'n darparu diweddariadau rheolaidd i chi ar ein gwaith archwilio gwasanaethau cyhoeddus, arfer da, a digwyddiadau.

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

Cyllid / Finance
Pennaeth Cyllid / Head of Finance: Dewi Morgan

Gofynnwch am/Ask for: Dewi Aeron Morgan
☎(01286) 682682
dewiaeronmorgan@gwynedd.llyw.cymru
Ein Cyf / Our Ref: DWJT/BME
Eich Cyf / Your Ref:

23 Tachwedd 2026

Archwilydd Cyffredinol Cymru

Swyddfa Archwilio Cymru

1 Cwr y Ddinas

Caerdydd

CF10 4BZ

Sylwadau ynghylch datganiadau ariannol 2025-26

Darperir y llythyr hwn mewn cysylltiad â'ch archwiliad o ddatganiadau ariannol Cronfa Bensiwn Gwynedd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026 at ddiben mynegi barn ar eu gwirionedd a'u tegwch a'u paratoi'n briodol.
Yr ydym ni'n cadarnhau hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred ar ôl gwneud yr ymholiadau fel yr ydym yn eu hystyried yn ddigonol, y gallwn gyflwyno'r sylwadau canlynol i chi.

Sylwadau'r rheolwyr

Cyfrifoldebau

Yr ydym ni wedi cyflawni ein cyfrifoldebau am:

- baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â gofynion deddfwriaethol a Chod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol 2025-26; yn arbennig mae'r datganiadau ariannol yn rhoi golwg gywir a theg yn unol â hwy;
- dylunio, gweithredu, cynnal ac adolygu rheolaeth fewnol i atal a chanfod twyll a gwallau.

Gwybodaeth a ddarparwyd

Rydym wedi darparu'r canlynol ar eich cyfer:

- mynediad llawn at:
  - yr holl wybodaeth yr ydym yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i baratoi'r datganiadau ariannol megis llyfrau cyfrifon a dogfennaeth ategol, cofnodion cyfarfodydd a materion eraill;
  - gwybodaeth ychwanegol yr ydych chi wedi gofyn amdani gennym ni at ddiben yr archwiliad; a
  - mynediad digyfyngiad at aelodau o staff y penderfynoch chi fod angen cael tystiolaeth archwilio ganddynt;
- canlyniadau ein hasesiad ni o'r risg y gallai'r datganiadau ariannol fod wedi'u cam-ddatgan yn berthnasol o ganlyniad i dwyll;

- ein gwybodaeth ni am dwyll gwirioneddol neu dwyll tybiedig yr ydym ni'n ymwybodol ohono ac sy'n effeithio ar Cyngor Gwynedd ac sy'n cynnwys:
  - rheolwyr;
  - cyflogeion sydd â rolau arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol; neu
  - eraill lle gallai'r twyll gael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol;
- ein gwybodaeth ni am unrhyw honiadau o dwyll gwirioneddol, neu dwyll tybiedig, sy'n effeithio ar y datganiadau ariannol a gyflëwyd gan weithwyr, cyn-weithwyr, rheoleiddwyr neu eraill;
- ein gwybodaeth ni am bob achos hysbys o ddiffyg cydymffurfio gwirioneddol neu ddiffyg cydymffurfio tybiedig â deddfau a rheoliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol; a
- gwybodaeth am bwy yw'r holl bartïon cysylltiedig a'r holl berthnasoedd a thrafodion partïon cysylltiedig yr ydym yn ymwybodol ohonynt.

Sylwadau am y datganiadau ariannol

Mae'r holl drafodion, asedau a rhwymedigaethau wedi cael eu cofnodi yn y cofnodion cyfrifyddu ac fe'u hadlewyrchir yn y datganiadau ariannol.
Mae'r dulliau, y data a'r tybiaethau arwyddocaol a ddefnyddiwyd i lunio amcangyfrifon cyfrifyddu, a'u datgeliadau cysylltiedig, yn briodol i gyflawni cydnabyddiaeth, mesuriad neu ddatgeliad sy'n rhesymol yng nghyd-destun y fframwaith adrodd ariannol perthnasol.
Rhoddwyd cyfrif priodol am berthnasoedd a thrafodion partïon cysylltiedig ac maent wedi cael eu datgelu'n briodol.
Lle cafwyd digwyddiadau ar ôl y dyddiad adrodd yr oedd yn ofynnol gwneud addasiad ar eu cyfer neu eu datgelu, mae'r holl addasiadau a datgeliadau hyn wedi cael eu gwneud.
Mae pob ymgyfreithiad a hawliad gwirioneddol neu bosibl hysbys y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol wedi cael eu datgelu wrth yr archwilydd a rhoddwyd cyfrif amdanynt ac maent wedi cael eu datgelu yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol.
Mae'r datganiadau ariannol yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, gan gynnwys hepgoriadau. Nid oes unrhyw gamddatganiadau heb eu cywiro.

Sylwadau gan y Pwyllgor Pensiynau

Rydym yn cydnabod bod y sylwadau a wnaed gan y rheolwyr, uchod, wedi cael eu trafod gyda ni.
Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb am baratoi datganiadau ariannol cywir a theg yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol. Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan y Pwyllgor Pensiynau ar 23 Tachwedd 2026.
Yr ydym yn cadarnhau ein bod wedi cymryd pob cam y dylem fod wedi'i gymryd er mwyn ein gwneud ein hunain yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac er mwyn cadarnhau ei bod wedi cael ei chyfleu i chi. Rydym yn cadarnhau, hyd y gwyddom, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad ydych chi'n ymwybodol ohoni.

Llofnodwyd gan:



Dewi Aeron Morgan
Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd
23 Tachwedd 2026

Llofnodwyd gan:

Cynghorydd Elin Hywel
Cadeirydd y Pwyllgor Pensiynau
23 Tachwedd 2026

CYFARFOD:	**PWYLLGOR PENSIYNAU**
DYDDIAD:	**23 TACHWEDD 2026**
TEITL:	**RHEOLAETH TRYSORLYS 2026/27 ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN**
PWRPAS:	**Mae Cod Ymarfer CIPFA yn argymell y dylid cynhyrchu adroddiad ar wir weithgarwch Rheolaeth Trysorlys y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol.**
ARGYMHELLIAD:	**DERBYN YR ADRODDIAD ER GWYBODAETH**
AWDUR:	**DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI**

---

1. CYFLWYNIAD

Penderfynwyd yn y Pwyllgor Pensiynau, 16 Mawrth 2026 i ganiatáu i arian dros ben y Gronfa Bensiwn gael ei gronni a'i gyd- fuddsoddi â llif arian cyffredinol y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2026/27.

Mae Cyngor wedi mabwysiadu Cod Ymarfer y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ar gyfer Rheoli Trysorlys (Cod CIPFA) sy'n ei gwneud yn ofynnol i gynghorau adrodd ar berfformiad rheolaeth trysorlys o leiaf ddwywaith y flwyddyn sef canol y flwyddyn a diwedd y flwyddyn. Mae'r adroddiad yma yn darparu'r diweddariad hanner blwyddyn.

2. CYD-DESTUN ALLANOL

